



**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES**

CYFRIFON BLYNYDDOL 2022-23

Cynnwys

	Tudalen
Manylion Cyfeirio a Gweinyddol	1-2
Datganiad llywodraethiant blynyddol (yn cynnwys strwythur a rheolaeth)	3-15
Amcanion a Gweithgareddau	16-17
Cyflawniad a Pherfformiad	18-21
Adolygiad Ariannol	22-24
Adroddiad Cynaliadwyedd	25
Polisiâu yn ymwneud â staff	26
Cynlluniau ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol	27-29
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd	30
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd	31-34
Datganiad o Weithgareddau Ariannol	35
Mantolen	36
Datganiad Llif Arian	37
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	38-61

Manylion Cyfeirio a Gweinyddol**Bwrdd yr Ymddiriedolion (o fis Ebrill 2022, ac ers diwedd y flwyddyn)****Penodwyd gan Lywodraeth Cymru:**

Ashok Ahir, Llywydd (penodiad parhaol yn weithredol o fis Ebrill 2022) ^

Andrew Evans, Is-lywydd (yn weithredol o 1 Ebrill 2022)

Michael Cavanagh (hyd at 31 Awst 2023)

Quentin Howard + (hyd at 31 Awst 2023; ailbenodwyd o fis Medi 2023)

Dr Carl Williams + (hyd at 3 Awst 2023)

David Hay ^

Lydia Rumsey *

Dr Janet Wademan *

Dr Andrew Cusworth (o 1 Tachwedd 2023)

John Trevor Allen (o 1 Tachwedd 2023)

Penodwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

Lee Yale-Helms, Trysorydd (hyd at 31 Mawrth 2023) * +; penodwyd fel Ymddiriedolydd o 1 Mehefin 2023)

Gronw Percy, Trysorydd (o 1 Ebrill 2023) * +

Dr Gwenllian Lansdown Davies * (hyd at 29 Chwefror 2024)

Dr Anwen Jones (hyd at 29 Chwefror 2024; ailbenodwyd o 1 Mawrth 2024)

Dr Elin Royles * (ymddiswyddodd 26 Ionawr 2023)

Susan Davies ^

Professor Elaine Treharne +

Hannah Lindsay (o 1 Chwefror 2022) ^

*** Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd**

+ Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

^ Aelodau o'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd

Aelodau Allanol Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd:

Rhian Evans

Huw Lloyd Jones

Aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau:

Hywel Tudor (hyd at fis Hydref 2022)

Dr Ieuan Griffiths (ymddiswyddodd 19 Ionawr 2024)

Aelodau'r Tîm Gweithredol:

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a Swyddog Cyfrifyddu

Yr Athro Pedr ap Llwyd FLSW

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

David Michael – ymddiswyddodd 16 Awst 2023

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol a Chasgliadau

Dr Owain Rh Roberts

Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau (o 1 Medi 2022)

Rhian Gibson

Prif Gynghorwyr:

Bancwyr

Cyfreithwyr

National Westminster Bank, Aberystwyth

Geldards LLP, Caerdydd

Humphreys Roberts & Bott, Aberystwyth

Hugh James, Caerdydd

Darwin Gray, Caerdydd

Archwilwyr Allanol

Archwilwyr Mewnol

Broceriaid Buddsoddi

Actiwaraid a Phensiynau

Archwilio Cymru, Caerdydd

Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru

Investec Wealth and Investment, Llundain

Willis Towers Watson, Caeredin

Rhif Elusen Gofrestredig

Rhif TAW

Cyfeiriad Cofrestredig

525775

905194137

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Penglais

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3BU

Treth Gorfforaeth

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi'i heithrio

rhag treth gorfforaeth o dan Adran 505 o Ddeddf

Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988

Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Cefndir Statudol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru (y Llyfrgell) drwy Siarter Frenhinol ar 19 Mawrth 1907. Rhoddwyd Siarteri Atodol ym 1911 ac ym 1978, gyda mân ddiwygiadau cyfansoddiadol. Ar 19 Gorffennaf 2006 rhoddwyd Siarter Atodol newydd i'r Llyfrgell gan y Frenhines Elizabeth II. Newidiodd y Siarter hon gyfansoddiad a llywodraethiant y Llyfrgell yn sylweddol gan gydnabod datganoli'r llywodraeth o San Steffan i Gymru. Roedd gan y Llyfrgell Lys Llywodraethwyr a Chyngor yn y gorffennol, ond bellach mae ganddi Fwrdd Ymddiriedolion.

Mae'r Llyfrgell hefyd yn elusen gofrestredig ac yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i hariennir gan gyfuniad o gymorth grant a ddyrennir gan Lywodraeth Cymru, ac incwm a geir drwy ei gweithgareddau masnachol, codi arian a chodi tâl. Nodir dyraniad ac amodau cymorth grant y Llyfrgell yn y llythyr cylch gwaith gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth.

Mae natur y Llyfrgell fel sefydliad Siarter Frenhinol ac elusen gofrestredig, a hefyd Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn llywodraethu sut mae'n gweithredu ac yn cyflawni ei rôl a'i rhwymedigaethau. Rhaid i'r Llyfrgell gydbwysu'r ddwy rôl hyn er mwyn cyflawni amcanion ei Siarter a'i statws elusennol, sy'n adlewyrchu ei phwrpas sylfaenol, gan yr un pryd gadw at egwyddorion llywodraeth hyd braich. Amcanion y Llyfrgell yw "casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig, yn enwedig mewn perthynas â Chymru a Chenedl y Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymroi i ymchwil a dysg".

Datganiad o gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan ei Siarter Frenhinol ac adrannau 8 (1) ac 8 (2) o'i Statudau, mae ofynnol i'r Llyfrgell baratoi cyfrifon blynyddol, a pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar faterion a sefyllfa'r Llyfrgell yn ystod y flwyddyn flaenorol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth fel y bydd yr Ymddiriedolion yn ei phennu o bryd i'w gilydd.

Rhaid i'r Llyfrgell baratoi ei chyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 a'r Datganiad o Arfer a Argymhellir i Elusennau.

Mae'r Llyfrgell yn atebol i Lywodraeth Cymru am yr arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn drwy'r Cytundeb Fframwaith, sy'n cael ei ddangos drwy gyfarfodydd monitro rheolaidd gyda'i chorff noddi a thrwy'r archwiliad blynyddol o gyfrifon y Llyfrgell gan Archwilio Cymru, archwilwyr statudol y Llyfrgell.

Y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu dynodedig ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae ei gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir, am ddiogelu asedau'r Llyfrgell, ac am baratoi'r adroddiad a chyfrifon blynyddol, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys.

Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu a'r Ymddiriedolion gyfrifoldeb ar y cyd am gynnal fframwaith llywodraethu cadarn a system reoli fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth, nodau ac amcanion y Llyfrgell, gan ddiogelu'r cronfeydd ac asedau cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd iddynt yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru (2016)*.

Amlinellir y cyfrifoldebau hyn hefyd yn y *Ddogfen Fframwaith* a ddrafftwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell, y rhannwyd fersiwn diwygiedig ohoni gyda Bwrdd yr Ymddiriedolion yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022. Nid oedd Llywodraeth Cymru, ar 31 Mawrth 2023, wedi rhannu fersiwn terfynol o'r *Ddogfen Fframwaith* ddiwygiedig gyda'r Llyfrgell.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am arweinyddiaeth effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol, gosod amcanion heriol, hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac yn effeithlon, a monitro perfformiad, er mwyn sicrhau bod y Llyfrgell yn llwyr fodloni ei nodau, amcanion a thargedau perfformiad ac yn cyflawni yn erbyn cynlluniau a chyllidebau.

Y Llywydd yw'r prif gyfathrebwr rhwng y Bwrdd a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth a rôl y Llywydd yw sicrhau bod aelodau eraill o'r Bwrdd yn cael gwybod am yr holl gyfathrebu o'r fath. Mae'r Llywydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a chymau gweithredu'r Bwrdd yn cefnogi polisiau strategol ehangach y Dirprwy Weinidog drwy *Raglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru.

1. Fframwaith a Rheoliadau Llywodraethiant Corfforaethol

Mabwysiadwyd y *Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol* gan Fwrdd yr Ymddiriedolion ym mis Tachwedd 2017. Mae diwygiadau ers hynny'n cynnwys Atodiad I, *Dirprwyo'r Bwrdd a Swyddogaethau Staff*, a'r *Cylch Gorchwyl* diwygiedig ar gyfer tri phwyllgor sefydlog y Bwrdd yn 2021. Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2023, cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolion *Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol* diwygiedig sydd wedi'i ddiweddarau i gynnwys cyfeiriad at Bwyllgor y Swyddogion, a *Chod Ymddygiad Ymddiriedolion* cynhwysfawr, ynghyd â chyfeiriadau at strategaeth bresennol y Llyfrgell, a dogfennau wedi'u diweddarau. Ym mis Medi 2023, cymeradwyodd yr Ymddiriedolion *Gylch Gorchwyl Bwrdd yr Ymddiriedolion*, ac mae'r ddogfen hon hefyd wedi'i chynnwys yn y *Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol*.

Mae'r *Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol* yn nodi cyfrifoldebau allweddol Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Weithrediaeth tra bo'r *Rheoliadau* yn nodi trafodion y Bwrdd a'i bwyllgorau.

2. Recriwtio a Phenodi Ymddiriedolion

Mae Bwrdd y Llyfrgell yn cynnwys pymtheg o Ymddiriedolion, gydag wyth ohonynt yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Ymddiriedolion, a saith gan y Llyfrgell yn unol â'r Rheoliadau. Mae'r Ymddiriedolion yn cynnwys tri o Swyddogion y Llyfrgell - y Llywydd, yr Is-lywydd a'r Trysorydd; penodir y Llywydd a'r Is-lywydd gan Lywodraeth Cymru, a phenodir y Trysorydd gan y Llyfrgell. Gwneir pob penodiad yn unol â Statudau a Rheoliadau'r Llyfrgell ac egwyddorion dethol agored fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Nolan.

Yn unol ag Adran 6 (v) o'i Siarter Frenhinol, mae gan y Llyfrgell yr awdurdod cyfreithiol i dalu Ymddiriedolion, ad yn 2020 penderfynodd yr Ymddiriedolion i dalu swydd y Llywydd.

Yn dilyn cyfnod fel Llywydd dros dro o 13 Medi 2021, penodwyd Ashok Ahir gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cyfweiliadau ac ymddangos gerbron y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, i rôl y Llywydd am gyfnod o bedair blynedd ym mis Mawrth 2022, gan ddechrau ei benodiad ar 1 Ebrill 2022. O 1 Ebrill 2022, rhoddwyd tâl am rôl y Llywydd ar sail diwrnod o wasanaeth yr wythnos yn y rôl am ffi o £337 y dydd, neu dâl blynyddol o £17,591. Nid yw'r Llywydd yn cael buddion pensiwn.

Cafodd Andrew Evans ei benodi gan Lywodraeth Cymru i rôl yr Is-lywydd am gyfnod o bedair blynedd, a dechreuodd yntau hefyd ei benodiad ar 1 Ebrill 2022.

Yn dilyn penderfyniad gan yr Ymddiriedolion ym mis Mawrth 2021 i estyn penodiad y Trysorydd am ddwy flynedd arall er mwyn rhoi sefydlogrwydd a pharhad i'r Llyfrgell ar adeg arbennig o heriol, cynhaliodd y Llyfrgell ymgyrch yn ystod 2022 i benodi Trysorydd, a fyddai'n cysgodi'r Trysorydd presennol nes i'w gyfnod yn y swydd ddod i ben ar 31 Mawrth 2023. Penodwyd Gronw Percy ym mis Hydref 2022 a chysgododd y Trysorydd presennol cyn ymgymryd yn swyddogol â'r rôl ar 1 Ebrill 2023 am gyfnod o bedair blynedd.

Ym mis Ebrill 2023 penderfynodd yr Ymddiriedolion benodi Lee Yale-Helms yn Ymddiriedolydd am gyfnod o ddwy flynedd i lenwi'r swydd wag a adawyd gan ymddiswyddiad Elin Royles. Bydd y penodiad hwn yn sicrhau parhad yn y trafodaethau parhaus ynglŷn â chynllun pensiwn y Llyfrgell, gan y bydd Lee yn parhau yn ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd Cynllun Pensiwn y Llyfrgell.

Ymddiswyddodd Mike Cavanagh a Carl Williams ar ddiwedd cyfnodau eu swyddi ar 31 Awst 2023, tra bod Quentin Howard wedi'i ailbenodi am dymor o bedair blynedd arall, yn effeithiol o 1 Medi 2023. Cafodd John Trevor Allen ac Andrew Cusworth eu penodi gan Lywodraeth Cymru fel Ymddiriedolion am dymor o bedair blynedd, yn effeithiol o 1 Tachwedd 2023.

Ni chafodd unrhyw Swyddogion nac Ymddiriedolion eraill eu talu yn ystod y flwyddyn ond roedd gan bawb, gan gynnwys y Llywydd, yr hawl i hawlio treuliau rhesymol wrth ymgymryd â'u dyletswyddau Ymddiriedolydd ar ran y Llyfrgell. Mae manylion buddiannau sylweddol yr Ymddiriedolion yn cael eu cadw mewn cofrestr buddiannau, a gedwir yn y Llyfrgell.

3. Cynefino a Hyfforddi Ymddiriedolion

Diweddarwyd Llawlyfr yr Ymddiriedolion i gynnwys y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol diwygiedig a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2023, fersiynau wedi'u diweddarau o gyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau, lle bo'n berthnasol, ac adran ragarweiniol newydd. Er mwyn sicrhau ymrwymiad parhaus y Llyfrgell i'r agenda cynaliadwyedd, mae Llawlyfr yr Ymddiriedolion bellach ar gael ar-lein yn unig.

Ar 26 Medi 2022, rhoddodd cynrychiolwyr o Investec, broceriaid buddsoddi'r Llyfrgell, gyflwyniad i'r Ymddiriedolion ac aelodau annibynnol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar fuddsoddi cyfrifol a chynaliadwyedd yn Investec, a sut mae ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn cael eu hymgorffori yn eu dadansoddiad o fuddsoddiadau.

Ar 7 Tachwedd 2022, bu Helen Morris, Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, yn hwyluso gweithdy ar barodrwydd i dderbyn risg gydag aelodau'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Tîm Gweithredol.

Mae hyfforddiant ar seiberddiogelwch yn bwnc y mae'r Bwrdd yn dymuno ei ddilyn, a bydd hyn yn cael ei hwyluso yn ystod 2023-2024.

4. Bwrdd a Phwyllgorau - Aelodaeth a Chyfarfodydd

Cynhaliodd y Bwrdd ei chwe chyfarfod wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn, a phob un ohonynt yn hybrid, gyda modd i'r aelodau fynychu yn yr adeilad yn Aberystwyth neu ar-lein. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd llawn ar gyfer pob cyfarfod, gan sicrhau bod y Llyfrgell yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Safonau'r Gymraeg.

Yn ogystal â'r chwe chyfarfod a drefnwyd, cynhaliwyd sesiwn gaeedig ychwanegol ar 21 Gorffennaf 2022 lle cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ddrafft cynnar o gais i Ail Gylch Cronfa Ffyniant

Bro'r DU i'r Ymddiriedolion, a dau gyfarfod eithriadol arall ar 13 Rhagfyr 2022 a 23 Chwefror 2023. Cafodd y cyfarfod ar 13 Rhagfyr ei gynnull yn benodol i drafod yr achos amlinellol strategol ar gyfer Oriel Genedlaethol Celf a Ffotograffiaeth (Cronfa Ffyniant Bro) a chynullwyd y cyfarfod ar 23 Chwefror 2023 i drafod y gyllideb ar gyfer 2023/2024 ymhellach.

Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol, o'r Ymddiriedolion yn unig, ar 19 Rhagfyr 2022, i drafod cynaliadwyedd ariannol y Llyfrgell yn y dyfodol a'r hyn y gellid ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.

Dosbarthwyd holl bapurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau i aelodau'n electronig, gan gefnogi ymhellach ymrwymiad y Llyfrgell i'r agenda cynaliadwyedd.

Mynychwyd cyfarfodydd y Bwrdd hefyd gan gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a Chyfarwyddwyr y Llyfrgell. Cyhoeddir agendâu a chofnodion y Bwrdd ar wefan y Llyfrgell, ynghyd â chrynodeb byr o bapurau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant>

Gellir gweld bywgraffiadau aelodau'r Bwrdd yn;

<https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/amdanom-ni/llywodraethiant/bwrdd-ymddiriedolwyr-llgc/aelodau-r-bwrdd>

5.1 Strwythur Pwyllgorau

Mae gan y Bwrdd dri phwyllgor sefydlog, y mae eu Cylch Gorchwyl wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

Pwyllgor	Cyfrifoldebau Allweddol
Archwilio, Risg a Sicrwydd	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau am reoli risg, rheolaethau mewnol, cyfrifon statudol, a llywodraethu'r Llyfrgell. Mae'r pwyllgor hefyd yn ymwneud â gwaith archwilio mewnol ac allanol a materion adrodd ariannol
Cyllid ac Adnoddau	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolion mewn perthynas â rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill y Llyfrgell yn effeithiol, effeithlon a chynaliadwy, yn enwedig portffolio buddsoddi'r Llyfrgell, y defnydd o'i chronfeydd preifat, ei gweithgareddau masnachol, a pherfformiad ei hymgyrchoedd codi arian
Perfformiad ac Ansawdd	Pwyllgor sefydlog sy'n cwmpasu holl anghenion sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolion ar gynnal safonau cyflawni effeithiol ac effeithlon, monitro, adolygu a datblygu'r gwasanaethau a ddarperir, sicrhau hygyrchedd ac ansawdd gwasanaeth i'r holl randdeiliaid, a sicrhau bod gofynion yr holl randdeiliaid yn cael eu bodloni'n deg

Yn ogystal â'r pwyllgorau sefydlog, mae'r Bwrdd hefyd wedi sefydlu Panel Adeiladau sy'n rhoi sicrwydd ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolion ar faterion yn ymwneud ag adeiladau

ac ystâd y Llyfrgell, gan gynnwys eu cynnal a'u cadw, eu defnyddio a'u datblygu, ac mae hefyd yn goruchwyllo'r rhaglen ddatgarboneiddio uchelgeisiol. Cafodd y Panel ei gadeirio gan Mike Cavanagh, Ymddiriedolydd nes iddo ymddiswyddo o'r Bwrdd ym mis Awst 2023, ac mae bellach yn cael ei gadeirio gan Quentin Howard, Ymddiriedolydd.

Mae'r Ymddiriedolion canlynol yn gwasanaethu ar Fwrdd y Gronfa Bensiwn - Lee Yale-Helms (Cadeirydd), Carl Williams, Anwen Jones ac Ashok Ahir.

Mae Quentin Howard a Lydia Rumsey yn gwasanaethu ar Fwrdd Rhaglen Archif Ddarlledu Cymru er mwyn cynrychioli buddiannau'r Ymddiriedolion.

Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd

Yn ogystal ag Ymddiriedolion ac aelodau annibynnol, mae archwilwyr mewnol y Llyfrgell a chynrychiolwyr o Archwilio Cymru yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor. Mae is-adran noddî'r Llyfrgell yn cadw'r hawl i gynrychiolydd fynychu un cyfarfod y flwyddyn.

Rhoddodd y pwyllgor sylw dyladwy i reoli risg a rheolaethau mewnol yn y Llyfrgell, ac fel rhan o'i rhaglen barhaus, cynhaliodd archwiliad dwfn o (i) y storfeydd yn y Llyfrgell a (2) adnau cyfreithiol, a goblygiadau ymrwymadau adnau cyfreithiol y Llyfrgell ar storfeydd yn y Llyfrgell. Ni ddiweddarwyd y Polisi Rheoli Risg yn ystod 2022-2023 gan fod adolygiad yn cael ei gynnal ond bydd yn cael ei ddiwygio yn ystod 2023-2024. Gan fod rheoli risg yn destun pryder arbennig i'r pwyllgor, fe gytunwyd, ar y cyd â'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, y byddai rheoli risg yn destun archwiliad mewnol i'w gynnal tua dechrau 2023-2024.

Fel y soniwyd eisoes, cymerodd aelodau'r pwyllgor, Ymddiriedolion eraill, ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Weithrediaeth ran mewn gweithdy risg, dwy awr, ar 7 Tachwedd 2022, a hwyluswyd gan Helen Morris (Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Archwilio Mewnol), i drafod parodrwydd y Llyfrgell i dderbyn risg, a bydd trafodaethau'r gweithdy hwnnw yn cyfrannu ymhellach at y Polisi Rheoli Risg diwygiedig.

Yn unol ag arfer da, fel y nodir yn adran 1.6 o Lawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg (Trysorlys EM, 2016) cynhyrchodd y pwyllgor ei adroddiad blynyddol cyntaf, yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, a'i gyflwyno i'r cyfarfod ar 26 Ebrill 2022. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Bwrdd wedyn ar 27 Mai 2022.

Roedd meysydd craffu eraill yn cynnwys adolygu adroddiadau archwilio mewnol, camau tendro unigol, diogelwch gwybodaeth, cyfrifon blynyddol statudol, ac yn enwedig unrhyw achosion o dor diogelwch data, seiberddiogelwch ac achosion eraill o dor diogelwch gwybodaeth a ddigwyddodd.

Janet Wademan sy'n cadeirio'r pwyllgor ac fe gyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Canolbwyntiodd y pwyllgor ar graffu ac adolygu cynlluniau a chyllidebau ariannol y Llyfrgell a'r goblygiadau ar gyfer sefydlogrwydd ariannol y Llyfrgell. Yn y cyfarfod ar 13 Mehefin 2022 roedd yr aelodau'n poeni ynghylch sefydlogrwydd ariannol bregus y Llyfrgell a chytunwyd y dylent argymhell i Fwrdd yr Ymddiriedolion y dylid comisiynu adolygiad annibynnol allanol o sefyllfa ariannol y Llyfrgell; cafodd hyn ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolion mewn cyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022.

Cafodd yr ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau i gynllun pensiwn y Llyfrgell ei ohirio dros dro wrth i Lywodraeth Cymru gyhoeddi yn ystod y flwyddyn y byddai'n cynnal adolygiad o gynlluniau pensiwn ar draws y cyrff cyhoeddus ym mhorthfolio Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a

Thwristiaeth. Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cadarnhawyd y gallai'r Llyfrgell barhau i symud i ymgynghori â'i staff a'i hundebau a bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod 2023/2024.

Ystyriwyd ceisiadau am ddefnyddio'r cronfeydd preifat wrth gefn, yn unol â gofynion Polisi Buddsoddi Cronfeydd Preifat 2020 - 2025 y Llyfrgell, a gwnaed argymhellion i Fwrdd yr Ymddiriedolion ynghylch a ddylid cymeradwyo'r rhain.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gyda chyfarfod eithriadol ychwanegol wedi'i gynnal ar 4 Ebrill 2023 i drafod ystyriaethau pensiwn strategol penodol mewn adroddiad a baratowyd gan Willis Towers Watson, actiwariau pensiwn y Llyfrgell.

Cadeiriwyd y pwyllgor gan y Trysorydd, Lee Yale-Helms tan fis Mawrth 2023, ac wedyn gan y Trysorydd newydd, Gronw Percy, o 1 Ebrill 2023.

Y Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd

Canolbwyntiodd y pwyllgor ar gynnydd yn erbyn dangosyddion perfformiad, cyflawni'r cynllun gweithredol a llywodraethu'r prosiect Archif Ddarlledu. Hefyd, cafodd y pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a thrafododd ddrafft o'r Ddogfen Fframwaith a baratowyd gan y corff noddi.

Neilltuwyd y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai 2022 ar gyfer trafod dangosyddion perfformiad ar gyfer cynllun strategol 2021 - 2026 a hefyd cynllun gweithredu 2022-2023.

Roedd y cyfarfod ar 18 Tachwedd 2022 yn trafod y Cod Ymddygiad Ymddiriedolion drafft a'r polisi gweithio hybrid i staff.

Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023, (a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd), a bydd y Cadeirydd yn drafftio cynllun datblygu i'w gyflwyno i'r Ymddiriedolion i'w drafod mewn gweithdy Bwrdd ar 27 Gorffennaf 2023.

Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan y Llywydd, Ashok Ahir, ac fe gyfarfu dair gwaith yn ystod y flwyddyn. Gohiriwyd y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 26 Gorffennaf 2022 a chariwyd y busnes drosodd i'r cyfarfod nesaf, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 25 Hydref 2022, y bu'n rhaid ei aildrefnu ar gyfer 18 Tachwedd 2022.

Ymunodd Hannah Lindsay â'r pwyllgor o 3 Mai 2022.

5.2 Presenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau

	Bwrdd	Archwilio, Risg a Sicrwydd	Cyllid ac Adnoddau	Perfformiad ac Ansawdd
Ashok Ahir	8/9			3/3
Lee Yale-Helms	6/9	2/4	5/5	
Andrew Evans	9/9			
Mike Cavanagh	6/9			

Quentin Howard	8/9		5/5
Carl Williams	4/9		2/5
Gwenllian Lansdown Davies	7/9	1/4	
Anwen Jones	7/9		
Elin Royles	7/8*	4/4	
David Hay	9/9		2/3
Lydia Rumsey	9/9	4/4	
Janet Wademan	9/9	4/4	
Susan Davies	8/9		3/3
Elaine Treharne	6/9		3/5
Hannah Lindsay	8/9		2/3

*Cyflwynodd Elin Royles ei hymddiswyddiad ar 26 Ionawr 2023, ond cytunodd i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 7 Mawrth 2023.

Mynychodd Gronw Percy gyfarfodydd y Bwrdd ar 27 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, a chyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 7 Mawrth 2023 fel sylwedydd.

5.3 Trosolwg o Berfformiad y Bwrdd

Fel llawer o sefydliadau eraill yng Nghymru, mae'r Llyfrgell bellach wedi dod allan yn llwyr o'r pandemig ond mae wedi gweld newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'n gwasanaethu ei chymunedau gyda mwy o ffocws ar wasanaethau digidol.

Yn sgil lansio Archif Ddarlledu Cymru ar 16 Mawrth 2023, agorwyd yr archif ddarlledu genedlaethol gyntaf yn y Deyrnas Unedig, sef cyflawniad y mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn haeddiannol falch ohono. Bydd yr archif hon yn galluogi defnyddwyr ym mhob rhan o Gymru a'r tu hwnt i gyrchu deunydd darlledu wedi'i ddigido mewn ffordd nad oedd erioed yn bosibl yn y gorffennol. Mae'r Archif yn seiliedig ar nifer o Gorneli Clip mewn gwahanol fannau ledled Cymru a bydd yn parhau i dyfu ei phresenoldeb yn y misoedd nesaf.

Gwahoddodd Cyngor Sir Ceredigion y Llyfrgell i gyflwyno cais i Ail Gylch Cronfa Ffyniant Bro'r DU. Cyflwynwyd drafft cynnar o'r cais uchelgeisiol i sefydlu oriel o arwyddocâd cenedlaethol i'r Ymddiriedolion gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ar 27 Mai 2022. Cynhaliwyd gweithdy ar 21 Gorffennaf 2022 lle bu cynrychiolwyr o Savills, a oedd wedi cwmpasu'r cais, yn amlinellu'r cynllun i sefydlu'r oriel uchod er mwyn arddangos a dehongli'r casgliadau cenedlaethol o Gelf a Ffotograffiaeth Cymru. Er i'r Ymddiriedolion ddatgan eu cefnogaeth unfrydol i wneud cais, penderfynwyd yng

nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Medi 2022 beidio â chyflwyno cais yn ffurfiol am nad oedd wedi'i ddatblygu'n llawn. Mewn cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd ar 13 Rhagfyr 2022, a fynychwyd gan gynrychiolwyr o Savills a Chyngor Sir Ceredigion, cytunwyd y byddai'r Llyfrgell yn parhau i ddatblygu cynllun busnes ar gyfer y prosiect hwn yn barod i'w gyflwyno i ddarpar gyllidwyr pan fydd cyfleoedd yn codi.

Yn y gweithdy ym mis Gorffennaf, trafododd yr Ymddiriedolion syniadau cychwynol ar gyfer datblygu Strategaeth Ryngwladol a Strategaeth Codi Arian, y bydd y ddwy ohonynt yn cael eu datblygu ymhellach gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau newydd yn ystod 2023-2024.

Yn dilyn argymhelliad a wnaed yn yr Adolygiad Teilwredig, cynhaliwyd adolygiad o effaith economaidd y Llyfrgell a'i photensial fel canolfan groeso gan Fourth Street, ac fe gafodd yr Ymddiriedolion adroddiad cychwynol ym mis Tachwedd 2022. Bydd Yr Adroddiad Cam 2 : Fframwaith Effaith yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mehefin 2023.

Gan weithredu ynghylch argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, bu'r aelodau'n trafod y posibilrwydd o gau'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig presennol a'r ystod o opsiynau amgen posibl, a fyddai'n cael eu trafod yn llawn gyda staff ac undebau. Cafodd yr Ymddiriedolion adroddiadau rheolaidd wedi'u diweddarau ar sefyllfa bresennol y cynllun pensiwn gan actiwariaid y cynllun i'w harwain yn eu penderfyniadau. Bydd penderfyniad ar y ffordd ymlaen o ran y cynllun pensiwn presennol yn cael ei wneud yn 2023-2024.

Ystyriodd yr Ymddiriedolion yr adolygiad ariannol annibynnol o sefyllfa ariannol gyfredol y Llyfrgell a'i chynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol a gynhaliwyd gan CIPFA yn eu cyfarfod ar 25 Tachwedd 2022. Adeg drafftio'r adroddiad, roedd y Llyfrgell yn wynebu diffyg cyllideb sylweddol posibl a hefyd yr angen i sicrhau cyllideb ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn preifat y Llyfrgell i helpu i ariannu diffygion yn y gyllideb. Fodd bynnag, fe wnaeth cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gyllideb yr hydref ddyfarnu cymorth grant ychwanegol i'r Llyfrgell, a chomisiynwyd adroddiad pellach gan CIPFA a oedd yn ystyried y cyllid ychwanegol hwn. Trafodwyd yr adroddiad dilynol hwn, a ddrafftiodd hefyd gan David Corner, gan yr Ymddiriedolion yn eu cyfarfod ar 27 Ionawr 2023, ac fe'i drafodwyd ymhellach gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2023.

Yn ystod y cyfarfodydd hyn mynegwyd pryderon am agweddau ar gynllunio ariannol a'r angen i ddarparu gwybodaeth ariannol fwy tryloyw i Fwrdd yr Ymddiriedolion, ac fe gytunwyd bod angen i'r Llyfrgell fynd i'r afael ag unrhyw wendidau o ran rheoli ariannol. Felly, penderfynwyd y dylid cynnal adolygiad o reoli ariannol yn y Llyfrgell, ac y dylai CIPFA, sef y prif gorff ar gyfer cyllid cyhoeddus, gael ei gomisiynu i ymgymryd â'r adolygiad hwn, yn erbyn y safonau yn ei God Rheoli Ariannol.

Nododd yr adolygiad nifer o feysydd lle gallai'r Llyfrgell wella ei gweithdrefnau ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio ariannol hirdymor mwy manwl a gwelliannau i'r amgylchedd rheoli.

Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion y mae'r Tîm Gweithredol wedi'u gweithredu yn ystod 2023-2024 fel a ganlyn:

- Gwella'r broses gyllidebu ac adrodd gwybodaeth ariannol i'r tîm gweithredol a'r Bwrdd;
- Gwell cyfathrebu am faterion ariannol â phob adran o fewn y sefydliad;
- Allanoli swyddogaethau allweddol fel gweinyddu'r gyflogres a'r cynllun pensiwn;

Bydd ailstrwythuro'r adran gyllid yn 2024 hefyd yn gwella'r broses o ddarparu gwybodaeth ariannol mewn modd amserol i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Yn hyn o beth, mae Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol newydd wedi'i benodi a bydd yn cwblhau'r newidiadau sydd eu hangen i weithredu argymhellion CIPFA yn llawn.

Trafodwyd cyllideb ddrafft 2023-2024 gan Fwrdd yr Ymddiriedolion yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2023, pan ofynnwyd i'r Tîm Gweithredol baratoi cyllideb ddrafft arall a oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol presennol, ac a oedd yn rhoi ystyriaeth briodol i anghenion ariannol a strategol y Gyfarwyddiaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau sydd newydd ei sefydlu. Cyflwynodd y Tîm Gweithredol ddrafft pellach o'r gyllideb, a oedd yn ystyried y materion uchod, i gyfarfod eithriadol o'r Ymddiriedolion a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2023, ac fe'i cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolion.

Cynhaliwyd arfarniadau perfformiad Ymddiriedolion unigol yn ystod 2022-2023, a bydd y rhain yn sbarduno rhaglen hyfforddi a datblygu i'r Ymddiriedolion ar gyfer 2023-2024. Cynhaliwyd adolygiad o berfformiad y Llywydd gan Lywodraeth Cymru.

Cafwyd trafodaethau am dâl Ymddiriedolion, yn dilyn argymhelliad arall a wnaed yn yr Adolygiad Teilwredig; fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 25 Tachwedd 2022, cytunodd yr Ymddiriedolion yn unfrydol na fyddai'n ddoeth ystyried tâl i'r Ymddiriedolion yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Fe gytunwyd i ailedrych ar hyn yn ddiweddarach os oedd angen.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'i gyfrifoldebau o ran seiberddiogelwch a'r risgiau cynyddol yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael adroddiadau digwyddiad manwl ym mhob cyfarfod, ac uwchgyfeirir y rhain at y Bwrdd lle bo angen.

Mae'r Ymddiriedolion wedi ymrwmo i gefnogi cynlluniau uchelgeisiol y Llyfrgell i ddod yn 100% carbon niwtral erbyn 2030 ac roeddent yn croesawu'r cynlluniau a oedd gan y Llyfrgell ar waith i gyflawni hyn. Mae goleuadau effeithlon o ran ynni bellach wedi'u gosod yn rhyw 95% o'r adeilad. Mae 30 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan, gan gynnwys gwefryddion cyflym, wedi'u gosod ar dir y Llyfrgell, a byddant yn weithredol tua chanol 2023. Bydd rhagor o baneli ffotofoltäig yn cael eu gosod ar doeau addas, ac arae solar ar y ddaear mewn cae ger y Llyfrgell. Bydd yr holl drydan a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio ar y safle.

Yn ogystal â'r uchod, bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried y materion canlynol yn ystod y flwyddyn;

- Cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd Bwrdd diwygiedig 2022
- Cymeradwyo Cod Ymddygiad Ymddiriedolion cynhwysfawr
- Cymeradwyo dangosyddion perfformiad ar gyfer cynllun gweithredu 2022-2023
- Cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol statudol 2021-2022
- Cytuno ar raglen waith 2022-2023 y Bwrdd
- Diweddariadau cynnydd Archif Ddarlledu Cymru
- Adroddiad terfynol ar weithredu argymhellion yr Adolygiad wedi'u Teilwra
- Cyllideb 2022/2023 a Chyllideb Ddrafft 2023-2024
- *Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd*
- Cymeradwyo cylch gwaith cyflog 2022-23
- Cymeradwyo Strategaeth Addysg 2023-2026
- Cymeradwyo'r Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth blynyddol
- Cymeradwyo'r adroddiad lechyd, Diogelwch a Lles blynyddol
- Cynghrair Strategol gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Diweddariadau ar y rhaglen adeiladu cyfalaf
- Opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg lle i storio yn y Llyfrgell

- Cofrestr risg gorfforaethol
- Perfformiad buddsoddiadau
- Adroddiadau cynnydd yn erbyn targedau a osodwyd yn y cynllun gweithredu blynyddol
- Cofnodion y tri phwyllgor sefydlog a'r Panel Adeiladau

5. Archwilio Mewnol

Parhaodd y Llyfrgell i weithio'n agos gyda'i harchwilwyr mewnol. Mae'r archwiliad mewnol yn cael ei ddarparu gan Wasanaeth Archwilio Llywodraeth Cymru sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Cytunwyd ar raglen waith ar gyfer 2022-2023 gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 26 Ebrill 2022, ac fe'i cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd.

Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn adrodd yn annibynnol yn flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli mewnol y Llyfrgell, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Cyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i aelodau adolygu a herio'r sicrwydd a roddir gan y Weithrediaeth. Dim ond sicrwydd cyfyngedig y gall y Pennaeth Archwilio Mewnol ei ddarparu o ran bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n briodol. Mae angen sylw ar rai materion sylweddol gydag amlygiad risg cymedrol i uchel nes eu datrys. Y prif resymau sy'n sail i'r farn hon yw canfyddiadau adroddiad CIPFA, Adolygiad o Gydymffurfriad y Llyfrgell â Chod Rheoli Ariannol CIPFA, a oedd yn ystyried i ba raddau mae trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu ariannol cyffredinol y Llyfrgell yn addas at ddiben.

O ganlyniad i adroddiad CIPFA, mae'r cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2023-2024 wedi'i ddiweddarau er mwyn sicrhau bod adolygiadau â ffocws yn cael eu cynnal mewn meysydd fel rheolaethau ariannol, rheolaethau TG a gweithdrefnau caffael.

Cyflwynwyd yr adroddiadau archwilio canlynol i'r pwyllgor yn ystod 2022-2023:

- Adroddiad Dilydol Caffael
- Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

6. Cod Ymarfer Gorau ar Lywodraethu

Hyd y gŵyr Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol ohoni. Mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd wedi cymryd pob cam angenrheidiol neu ofynnol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Llyfrgell yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Fel elusen gofrestredig, mae'r Llyfrgell wedi gweithredu yn unol â'r Cod Llywodraethu Da: Cod i'r Trydydd Sector yng Nghymru a chanllawiau a chodau ymarfer y Comisiwn Elusennau, ac mae Bwrdd yr Ymddiriedolion wedi sicrhau, unwaith eto yn unol â'r cod ymarfer hwn, fod gan y Llyfrgell drefniadau llywodraethu cadarn ar waith i hyrwyddo perfformiad uchel a diogelu priodoldeb a rheoleidd-dra.

Rheolaethau a Rheoli Risg

Manylir ar system rheoli mewnol y Llyfrgell yn y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn 2021; gwnaed mân newidiadau i'r fersiwn a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Mai 2022 i gynnwys cyfeiriadau at strategaeth newydd y Llyfrgell, cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, newid i enw'r pwyllgor a chyfeiriad at graffu ar gofrestri risg adrannol, ymarferion archwilio dwfn a risgiau unigol.

Mae hyn yn ddull strwythuredig o sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolion yn cael yr wybodaeth iawn, sy'n gywir ac yn berthnasol, ar yr adeg gywir a chyda lefel briodol o sicrwydd wedi'i briodoli i bob ffynhonnell ddata. Mae Polisi Rheoli Risg y Llyfrgell yn diffinio dull y Llyfrgell o ymdrin â risg a sut mae rheoli risg wedi'i wreiddio mewn prosesau rheoli er mwyn sicrhau bod y risgiau strategol allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Bydd yr archwiliad rheoli risg a drefnwyd i ddigwydd yn hanner cyntaf 2023-2024 yn mynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor a'r Swyddog Cyfrifyddu o ran cael y sicrwydd angenrheidiol bod prosesau a pholisïau ar waith i reoli'n effeithiol y risgiau sy'n wynebu'r Llyfrgell, a bydd canfyddiadau'r archwiliad yn sbarduno unrhyw welliannau angenrheidiol o ran rheoli risg ar draws y Llyfrgell.

Bydd y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg, ynghyd â'r gofrestr risg gorfforaethol, yn rhan o'r archwiliad mewnol a gynhelir yn ystod 2023-2024 ar gyfer rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i Fwrdd yr Ymddiriedolion a'r Swyddog Cyfrifyddu fod prosesau a pholisïau ar waith i reoli'n effeithiol y risgiau y mae'r Llyfrgell yn eu hwynebu.. Bydd yr holl ddogfennau uchod yn cael eu diwygio a'u diweddarau yn dilyn canfyddiadau'r archwiliad mewnol, a bydd unrhyw argymhellion pellach sy'n codi o'r archwiliad yn sbarduno unrhyw welliannau angenrheidiol o ran rheoli risg ar draws y Llyfrgell.

Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn nodi, yn dogfennu, yn asesu ac yn manylu ar y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Llyfrgell. Adolygir y rhain yn gyson gan y Tîm Gweithredol ac unrhyw berchnogion risg eraill neilltuedig a chymerir camau priodol i reoli a lliniaru'r risgiau hyn. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn seiliedig ar gofrestri risg adrannol, sydd hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol, ac mae risgiau adrannol yn cael eu huwchgyfeirio at y gofrestr gorfforaethol lle bo angen.

Yn hydref 2022 mabwysiadodd y Llyfrgell feddalwedd rheoli risg newydd ar gyfer cofnodi a monitro'r risgiau sy'n wynebu'r Llyfrgell, ac roedd hyn yn rhoi mynediad ar-lein at y cofrestri risg adrannol a chofrestri risg corfforaethol i aelodau'r Bwrdd ac aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ac aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau er mwyn iddynt weld yr holl risgiau a gofnodwyd. Mae'r system hon yn fodd i risgiau gael eu diweddarau gan staff, a'u monitro gan y Weithrediaeth, yn llawer amlach nag a oedd yn digwydd o'r blaen.

Mae'r Llyfrgell yn parhau i fonitro'n agos y diffyg lle storio ar gyfer casgliadau ffisegol a rhai amgylcheddol sensitif, ac mae wrthi'n ystyried opsiynau i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am bosibilrwydd sefydlu storfa gydweithredol ar gyfer sefydliadau treftadaeth.

Mae'r Llyfrgell yn parhau i fod yn ofalus yn ei dull o reoli risgiau o ran ei chyfrifoldebau fel corff a ariennir yn gyhoeddus, ac mewn meysydd megis cydymffurfio â deddfwriaeth neu amodau a osodir gan Lywodraeth Cymru, bydd bob amser yn ceisio cydymffurfio yn ddieithriad. Mae'r Llyfrgell yn parhau i reoli'r risgiau y mae'r heriau ariannol sylweddol sy'n ei hwynebu yn eu hachosi i'w gallu i gynnig codiadau cyflog i staff, cwrdd â chynnydd sylweddol mewn costau rhedeg eraill a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Cwblhawyd holiaduron rheoli mewnol gan Benaethiaid Adrannau a Chyfarwyddwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn cadarnhau bod elfennau allweddol o system rheoli mewnol y Llyfrgell ar waith yn ystod y flwyddyn a'u bod yn gweithio'n effeithiol o fewn eu maes cyfrifoldeb. Roedd yr ymatebion yn rhoi lefel ychwanegol o sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch cadernid fframwaith rheoli'r Llyfrgell.

Mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wraidd gweithgareddau'r Llyfrgell, ac mae hyn wedi'i ymgorffori yn y strategaeth newydd Llyfrgell i Gymru a'r Byd. Mae'r fframwaith effaith yn dangos sut mae'r amcanion llesiant strategol yn cyfrannu at saith nod llesiant y Ddeddf, tra bod y cynllun strategol yn nodi sut mae'r Llyfrgell yn bwriadu cyflawni yn erbyn y nodau llesiant.

Yn ystod hydref 2022 roedd y Llyfrgell yn destun archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol ar bennu ei hamcanion llesiant. Ystyriodd yr archwiliad sut mae'r Llyfrgell yn gosod ac yn cyhoeddi amcanion llesiant a sut, wrth arfer ei swyddogaethau, y byddai'n cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Cafodd y Llyfrgell yr adroddiad drafft ym mis Mawrth 2023, ac ar ôl cael yr adroddiad terfynol bydd yn trafod unrhyw argymhellion a champau gweithredu sy'n ofynnol gyda Bwrdd yr Ymddiriedolion yn ei gyfarfod ar 2 Mehefin 2023.

Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod y flwyddyn o dan Bolisi Chwythu'r Chwiban, ac ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na llygredigaeth.

Ymdriniwyd â chwynion yn unol â'n Polisi Cwynion. Ymchwiliwyd i'r holl gwynion yn llawn, a gweithredwyd unrhyw welliannau neu newidiadau i arferion gwaith lle bo hynny'n briodol.

7. Diogelwch Gwybodaeth

Mae gan y Llyfrgell weithdrefnau a phrotocolau diogelwch gwybodaeth ar waith i sicrhau cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd yr wybodaeth a gedwir ac a brosesir gennym, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r rhain yn cynnwys;

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Defnydd Derbyniol
- Polisiâu mewnol ar ddiogelwch gwybodaeth - dileu data, cyfrifiadura symudol, cyfrinair, cyfryngau symudadwy

Cafodd ail-ardystio ar gyfer achrediad Cyber Essentials / IASME ei oedi ymhellach yn 2022-2023 oherwydd cyfyngiadau adnoddau, ond disgwyliar y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod 2023-2024. Rhoddir gwybod am bob digwyddiad diogelwchgwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Ni chafwyd achos o dor diogelwch yn ystod y flwyddyn yr oedd gofyn rhoi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth amdano.

Cafodd y Llyfrgell 11 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, yn amrywio o ymholiadau cysylltiedig â chasgliadau i ymholiadau rheoli a chaffael. Atebwyd pob ymholiad o'r fath o fewn yr 20 diwrnod gwaith a ganiateir i ymateb.

8. Y Dyfodol

Yn ystod 2023-2024, bydd y Llyfrgell yn ymdrechu i gyflawni ei strategaeth yn wyneb llai o gyllid ond bydd yn parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar gyllid cymorth grant yn y dyfodol a bydd yn archwilio ffynonellau cyllid eraill i gefnogi cyflawni ein nodau strategol. Wrth symud ymlaen, bydd yr Ymddiriedolion yn;

- Ystyried unrhyw newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun Pensiwn presennol
- Parhau i ddatblygu manau cyhoeddus newydd fel rhan o Archif Ddarlledu Cymru mewn safleoedd y tu hwnt i Aberystwyth
- Datblygu a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022 - 2026 newydd
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Ryngwladol

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Codi Arian/Cynhyrchu Incwm
- Gweithredu'r Strategaeth Addysg newydd
- Datblygu cynllun strategol hirdymor ar gyfer cyfleusterau storio
- Cefnogi ffurfio'r Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol
- Cytuno ar Femorandwm Cytundeb gydag Amgueddfa Cymru
- Datblygu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen ag argymhellion yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd
- Gweithredu unrhyw argymhellion Adolygiad CIPFA o Reoli Ariannol
- Gweithredu argymhellion a chanfyddiadau archwiliad Archwilio Cymru o bennu amcanion llesiant y Llyfrgell

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd:

Pedr ap Llwyd
Llyfrgellydd a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
22 Mawrth 2024

Gronw Percy
Trysorydd
22 Mawrth 2024

2 AMCANION A GWEITHGAREDDAU

2.1 Prif amcanion

Prif amcan y Llyfrgell, fel y mynegwyd yn Siarter Atodol 2006 yw:

- *casglu, cadw a rhoi mynediad i bob math a ffurf o wybodaeth gofnodedig, yn enwedig yn ymwneud â Chymru a'r Cymry a phobloedd Celtaidd eraill, er budd y cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag ymchwil a dysg.*

Y pwrpas a'r weledigaeth sylfaenol oedd sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i gofnodi mewn amrywiol ffurfiau a chyfryngau dros y blynyddoedd, ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym ni, i egluro'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ein llunio fel cenedl dros y canrifoedd, ac i annog dysgu ac ymchwil. Mae dau ddimensiwn iddo - adeilad corfforol ysblennydd, yn Aberystwyth, yn gartref i'r casgliadau print, llawysgrif, gweledol a chlyweledol a hefyd llyfrgell ac archifau, yn ogystal â phresenoldeb digidol ar y rhyngwrdd.

2.2 Budd Cyhoeddus

Mae ein gweledigaeth 'sicrhau newid er gwell i bawb yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol', fel y nodir yn ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-26, yn sicrhau bod budd cyhoeddus wrth wraidd ein holl weithgareddau. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae'r Ymddiriedolion wedi cydymffurfio ag adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 drwy roi sylw dyledus i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Er mai pobl sy'n byw yng Nghymru yw ein prif fuddiolwyr, mae'r Cynllun Strategol 'Llyfrgell i Gymru a'r Byd' hefyd yn pwysleisio ein heffaith fyd-eang fel cyrchfan ddiwylliannol i ymwelwyr a thrwy ein gwasanaethau i ddefnyddwyr ar-lein ledled y byd.

2.3 Prif Weithgareddau

Mae ein prif weithgareddau, sy'n cael eu cynnal er mwyn hyrwyddo dibenion yr elusen er budd y cyhoedd yng Nghymru, fel a ganlyn:-

2.3.1. Casglu:

Casglu deunyddiau drwy adneuo cyfreithiol, pryniannau, rhoddion, cymynroddion, cyfnewidiadau ac adneuo, yn unol â pholisïau datblygu casgliad y cytunwyd arnynt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- greu casgliad mor gyflawn â phosibl, ym mhob cyfrwng, o ddeunydd cyhoeddedig sy'n ymwneud â Chymru (a gwledydd Celtaidd eraill i raddau llai), gan gynnwys cyhoeddiadau electronig ac argraffedig a deunydd sain/delweddau symudol;
- cynnal (yn bennaf trwy adneuo cyfreithiol a phryniannau) y casgliad mwyaf cynhwysfawr yng Nghymru o ddeunyddiau printiedig a gyhoeddwyd yn y DU ac Iwerddon, a deunydd ymchwil o wledydd eraill;
- datblygu casgliadau o ddeunyddiau heb eu cyhoeddi sy'n ymwneud â Chymru neu'n deillio ohoni, gan gynnwys archifau a gwaith artistig;
- cael mynediad at waith sydd wedi'i gaffael, ei brosesu, ei gatalogio a'i storio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

2.3.2. Cadw a Gwarchod:

Cadw a gwarchod y casgliadau. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- sicrhau bod yr amgylchedd, yr amodau storio a thrin yn briodol ar gyfer cadwraeth barhaus y casgliadau;
- ymyrryd yn weithredol i warchod deunyddiau er mwyn rhwystro dirywiad neu atgyweirio difrod;
- trosglwyddo gwybodaeth i fformatau cadw mwy priodol.

2.3.3. Darparu mynediad a gwybodaeth:

Darparu mynediad cyhoeddus addas/effeithiol i adeilad y Llyfrgell, ei chasgliadau a'i gwasanaethau, a gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- fonitro a dadansoddi anghenion defnyddwyr;
- rhoi mynediad i fannau cyhoeddus, casgliadau a chyfleusterau yn yr adeilad;
- trefnu mynediad at eitemau casgliad a gwasanaethau gwybodaeth i ddefnyddwyr ar y safle neu drwy gyfathrebu ar-lein ar gyfer defnyddwyr o bell;
- darparu mynediad hawdd at gatalogau o gasgliadau ac adnoddau electronig y Llyfrgell, ac at ei fersiynau digidol cyfatebol.

2.3.4 Hysbysebu a dehongli:

Hybu ymwybyddiaeth am waith a chasgliadau'r Llyfrgell a lledu gwybodaeth amdanynt. Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- ddeunyddiau ar wefan y Llyfrgell;
- canllawiau a deunyddiau cyhoeddusrwydd mewn fformatau papur ac ar-lein;
- arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol/cymunedol sy'n deillio o'r casgliadau, yn y Llyfrgell ac mewn lleoliadau eraill ledled Cymru;
- digwyddiadau, darlithoedd a seminarau.

2.3.5. Cydweithio proffesiynol:

Cydweithio â, ac weithiau arwain grwpiau proffesiynol cysylltiedig, ledled Cymru a'r tu hwnt.

Cyflawnir y swyddogaeth hon drwy:

- weithredu fel canolbwynt i gyrff llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru;
- gweithio gyda chyrrff yng Nghymru a'r tu hwnt i fynd ar drywydd mentrau a phartneriaethau cydweithredol yn sectorau eang treftadaeth, diwylliant a gwybodaeth, ac i hyrwyddo ymarfer proffesiynol.

Swyddogaethau cymorth:

Cefnogir y **swyddogaethau craidd** gan swyddogaethau rheoli a busnes hanfodol, gan gynnwys: rheoli a datblygu staff; rheoli adnoddau ariannol a chynhyrchu incwm a bod yn atebol am hyn; a chynnal a datblygu isadeiledd TGCh ac adeilad a chyfleusterau'r Llyfrgell.

Mae'r Llyfrgell yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar sut y bydd y gweithgareddau'n cael eu cyflawni, a thargedau yn erbyn y gweithgareddau hyn. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut mae'r strategaeth hon yn cael ei deillio a'i chyflawni wedi'u cynnwys yn adran 7.

3. CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

3.1 Uchafbwyntiau allweddol yn 2022/2023

Rydym wedi canolbwyntio mwyfwy ar wella profiad unigolion a chymunedau o'n gwasanaethau a'r ffordd y maent yn elwa ar y gwaith a wnawn - gwelliannau a fydd yn cael effaith bendant ar fywydau pobl bob dydd. Un enghraifft yw sefydlu ein Cyfarwyddiaeth Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau newydd ym mis Medi 2022, a fydd yn ein helpu i ddeall yn well yr hyn y mae ar bobl ei eisiau gennym a sicrhau y daw'r Llyfrgell yn fwy perthnasol i fwy o bobl sy'n byw yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, parhaodd ein cynnydd ar ein cynllun strategol ac o ran ein hymdrechion i wneud cyfraniad amlwg at wireddu Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Gan ganolbwyntio ar ymdeimlad pobl Cymru o berthyn a'u cof cyfunol, mae'r prosiectau a'r mentrau arbennig a gynhaliwyd gennym eleni yn cynnwys:

3.1.1 Meithrin cof y genedl a gofalu amdano

Lansiwyd Canolfan Archif Ddarlledu Cymru ym mis Mawrth 2023 gan gynnig arddangosfa ryngweithiol a mynediad digidol at ddeunydd a gadwyd mewn gwahanol fformatau ar hyd y degawdau. O ganlyniad, gall ymwelwyr nawr chwilio recordiadau sain o radio'r BBC yng Nghymru o'r 1930au ymlaen, darllediadau teledu gan y BBC a darlledwyr masnachol yng Nghymru gan gynnwys HTV Cymru ac ITV Cymru Wales o'r 1950au ymlaen ac o 1982 - holl raglenni S4C, y sianel deledu Gymraeg gyntaf. Ariannwyd y prosiect parhaus hwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r Llyfrgell.

Croesawyd Deiseb Heddwch can mlwydd oed a lofnodwyd gan bron i 400,000 o Ferched Cymru yn ôl i Gymru. Cyrhaeddodd y gist a'r ddeiseb yn y Llyfrgell Genedlaethol i groeso cynnes gan y bobl sy'n rhan o Bartneriaeth Deiseb Heddwch y Merched sydd wedi gweithio dros lawer blwyddyn i'w chael yn ei hôl. Y dychwelyd hwn yw'r cam cyntaf i'w gwneud yn hygyrch i bobl Cymru. Cydweithiodd y Llyfrgell â Phartneriaeth Deiseb Heddwch y Merched, Llywodraeth Cymru, a'r Smithsonian yn Washington DC lle'r oedd y gist a'r ddeiseb yn cael eu cadw ers cael eu cyflwyno i Arlywydd yr Unol Daleithiau ganrif yn ôl.

Mae'r Llyfrgell wedi parhau i ddatblygu ei chasgliadau yn ystod y flwyddyn. Daeth y gwaith o gaffael a phrosesu Archif Ddarlledu Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i'w anterth gyda lansiad Archif Ddarlledu Cymru. Bu'r Llyfrgell hefyd yn canolbwyntio ar yr angen i amrywiaethu ei chasgliadau ac mae wedi dechrau ar y gwaith o gyflawni tri phrosiect sy'n cefnogi cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r Llyfrgell yn parhau i sicrhau bod y Gymru gyfoes yn cael ei hadlewyrchu mewn caffaeliadau newydd. Bu Archifo ar y We yn fodd i'r Llyfrgell wneud cynnydd da yn y maes hwn. Roedd y prosiect Celf Gwrth-hiliol yn cynnwys comisiynu gwaith celf gan artistiaid o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i'w caffael i'r casgliadau cenedlaethol.

3.1.2 Gosod y sylfaen ar gyfer economi wybodaeth

Fel sefydliad gwybodaeth mae'r Llyfrgell wedi parhau â'i rhaglen ddigideiddio gyda'r ffocws yn bennaf eleni ar ddeunydd clyweled i gefnogi Archif Ddarlledu Cymru. Mae'r gwasanaethau digidol a'r gwasanaethau ystafell ddarllen ochr yn ochr â'r gwasanaeth ymholiadau a thrwyddedu yn parhau i gefnogi unigolion a busnesau i ddarparu mynediad at gynnwys. Mae'r gwaith o gefnogi seilwaith gwybodaeth ehangach Cymru wedi parhau gyda Wici-lleoedd II. Cyrhaeddwyd y targed o gyhoeddi 1,000 o erthyglau ar drefi/pentrefi/lleoedd i Wikipedia a chwblhawyd y gwaith o ddatblygu map beta o Gymru yn Gymraeg.

3.1.3 Bod yn ganolog i fywyd cenedlaethol

Mae prosiect Cymunedau Cymru yn helpu plant mewn cymunedau ledled Cymru i gofleidio a dathlu treftadaeth ddiwylliannol amrywiol y genedl. Mae'r prosiect yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol drwy weithio gydag ysgolion i adrodd straeon drwy lens y gwahanol bobl sydd wedi llunio Cymru fodern. Mae pob prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu adnoddau sy'n seiliedig ar brofiadau byw, a chynhyrchu deunyddiau dysgu sy'n dathlu amrywiaeth ac yn annog ymgysylltu gwrth-hiliol. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn gweithio gyda grwpiau ac ysgolion lleol sy'n cynrychioli cymunedau sipsiwn a theithwyr yn Sir Benfro, y diaspora Portiwgeaid yn Wrecsam, a'r gymuned o amgylch Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd.

Fel rhan o brosiect Archif Ddarlledu Cymru mae'r Llyfrgell yn agor Corneli Clipiau ledled Cymru a fydd yn cynnig mynediad at gasgliad heb ei ail o ddeunyddiau ffilm, sain a fideo. Yn ogystal ag ymestyn mynediad, bydd y canolfannau newydd hyn yn gweithredu fel canolbwynt i'r Llyfrgell ddarparu gwaith sy'n datblygu sgiliau newydd i gyfranogwyr. Bydd y gwaith hwn gyda gwirfoddolwyr, ysgolion, dysgwyr Cymraeg, ymarferwyr creadigol a sefydliadau cymunedol yn arwain at gynhyrchu straeon digidol, fideos therapi hel atgofion, blychau cof, arddangosfeydd digidol, a gwaith creadigol newydd sy'n ymateb i'r casgliad.

Mae'r Llyfrgell yn parhau i arddangos ei chasgliadau yn ein horiel yn Hwlfordd fel rhan o'n partneriaeth â Chyngor Sir Penfro. Mae'r oriel yn rhan o ddatblygiad Llyfrgell Glan-yr-afon sydd hefyd yn cynnwys caffi, canolfan gynghori, llyfrgell gyhoeddus a chanolfan groeso. Yn y man hwn rydym yn cynhyrchu rhaglen o arddangosfeydd thematig chwe mis, ac arddangosfa barhaol ar hanes, diwylliant a chwedlau Sir Benfro. Mae'r Llyfrgell hefyd yn cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau a chyfres o weithdai addysg i gyd-fynd â'r arddangosfeydd.

3.1.4 Grymuso dysgu ac ymchwil

Mae'r Llyfrgell wedi mabwysiadu Strategaeth Addysg newydd gyda'r nod o dyfu gwasanaethau addysg y Llyfrgell ymhellach er mwyn bod yn ganolog i daith ddysgu pob plentyn ac oedolyn yng Nghymru. Trwy ei gwaith gyda disgyblion ysgol, myfyrwyr a dysgwyr gydol oes, mae'r Llyfrgell yn cynnig profiadau cyffrous i'n defnyddwyr, a mynediad ehangach at ein casgliadau, yn adeilad y Llyfrgell, yn rhithwir ac ar draws Cymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cefnogi dysgu mewn cymunedau ledled Cymru ac wedi datblygu cynulleidfaoedd newydd trwy waith ymgysylltu ac allgymorth. Rydym hefyd wedi cyflwyno gwaith Bagloriaeth Cymru sy'n canolbwyntio ar wella sgiliau craidd a chyflogadwyedd i bobl ifanc 16-18 oed, a rhoi cyfleoedd iddynt ymgysylltu â'n casgliadau. Bydd prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu geiriadur ar-lein sef y Bywgraffiadur Cymreig a gyhoeddir yn 2023 yn ychwanegu at y corff cynyddol o adnoddau dysgu digidol a gynhyrchir gan y Llyfrgell y gellir eu defnyddio i gefnogi cyflwyno a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru.

Yng ngwanwyn 2022, cyhoeddwyd ffrwyth llafur oes Daniel Huws, A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800-c.1800, y bu mawr ddisgwyl amdano, gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Mae cyfrol gyntaf y Repertory yn rhoi disgrifiadau cryno o ryw 3,300 o lawysgrifau a ysgrifennwyd yn Gymraeg rhwng tua 800 a thua 1800, gan gynnwys y rhai a ysgrifennwyd mewn ieithoedd eraill sy'n ymwneud â llenyddiaeth a dysg Gymreig. Mae'r ail gyfrol yn gofrestr fywgraffyddol o ryw 1,500 o ysgrifenyddion, gan gynnwys rhai dienw y mae eu hysgrifen wedi'i gydnabod mewn dwy lawysgrif neu ragor, ac mae hefyd yn cynnwys mynegeion cynhwysfawr (tua 250tt.) i enwau lleoedd, enwau personol, testunau a phynciau yng Nghyrol I, a mynegai cronolegol o lawysgrifau hyd at 1580. Yn y drydedd gyfrol ceir rhyw 900 o ddelweddau sy'n rhoi enghreifftiau o wahanol lawysgrifau'r 600 o ysgrifenyddion pwysicaf sydd wedi'u cynnwys yng Nghyrol II.

Mae'r Llyfrgell mewn cydweithrediad ag academyddion Prifysgol Aberystwyth wedi sefydlu Canolfan Ymchwil newydd i dynnu ar gasgliad cyfoethog ac amrywiol y Llyfrgell o weithiau printiedig sy'n ymwneud â meddygaeth ac iechyd yng Nghymru. Lanswyd y Ganolfan Ymchwil ar gyfer Llenyddiaeth

a Hanes Meddygaeth yng Nghymru mewn cynhadledd undydd a gynhelir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2022. Mae'r Llyfrgell yn gartref i gasgliad sylweddol o weithiau printiedig Cymraeg a Chymreig ar feddygaeth ac iechyd. Mae'r casgliad, a gafodd ei ddigido gyda nawdd a chefnogaeth gan Wellcome Trust yn cynnwys dros 6,500 o eitemau unigol sy'n dyddio'n ôl i 1740. Mae'n cynnwys llyfrau ar feddyginiaethau cynnar, meddyginiaethau llysiuol, adroddiadau iechydol, cyfrifon ar glefydau heintus, a chofnodion cleifion gwallgofdai.

Rydym wedi sicrhau bod pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi'u cyflawni er mwyn sicrhau bod yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth weithio tuag at ein Hamcanion Strategol a Llesiant yn cael ei dilyn a'i defnyddio.

3.2. Dangosyddion Cyflawniad Allweddol

Adroddwyd ar berfformiad y Llyfrgell yn erbyn ei thargedau i Lywodraeth Cymru yn 2022-2023 fel a ganlyn:

	Targed	Cyrhaeddiad
Ymweliadau digidol	1,900,000	1,620,934
Ymwelwyr digidol rhyngwladol â safleoedd y Llyfrgell	850,000	763,826
Ymwelwyr â safleoedd y Llyfrgell	50,000	57,517
Bodddhad defnyddwyr - ymweliadau corfforol	96%	98%
Bodddhad defnyddwyr - ymweliadau digidol	80%	73%
Nifer y digwyddiadau	150	529
Atgyfeiriadau presgripsiynu cymdeithasol	20	25
Nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau	10,000	10,628
Oriau gwirfoddoli ar y safle	5,000	6,064
Oriau Gwirfoddolwyr Digidol	700	995
Adnoddau addysgol digidol wedi'u cyhoeddi ar-lein	20	14
Eitemau newydd gyda dehongliad a gyhoeddwyd gan y Llyfrgell	1,200	1,761
Nifer yr argraffiadau ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol	2,750,000	2,569,976
Cyrhaeddiad cynnwys y Llyfrgell ar Wikimedia	190,000,000	190,588,536
Gweithdai addysg ffurfiol wedi'u cyflwyno	80	135
Sesiynau dysgu anffurfiol	100	147
Rhyngweithio â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli neu sefydliadau sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn	20	66
% y deunydd adnau cyfreithiol wedi'i brosesu o fewn 10 diwrnod gwaith	90%	96%
Nifer yr oriau cadwraeth	8,250	10,502

Caiff perfformiad yn erbyn targedau ei adolygu gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd gyda nodiadau a dehongliadau'n cael eu darparu ynghylch cyflawniadau yn erbyn targedau.

Mae'n ofynnol i ni fonitro'n barhaus a gwerthuso ein gwaith yn feintiol ac ansoddol. Er bod ein dangosyddion cyflawniad meintiol yn rhoi cipolwg ar berfformiad, mae'r data ansoddol o astudiaethau achos ac adroddiadau naratif yn dal i ddarparu ciplun manylach, a chyfle i fyfyrio ar ein gwaith a'i gyfoethogi.

4 ADOLYGIAD ARIANNOL

4.1 Canlyniadau a Dyraniadau Ariannol

Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriellau 1992 ar ffurf a gyfarwyddir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Incwm/(gwariant) net y Llyfrgell ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd (£2,914k) (2021-2022: £3,467k).

Cyfanswm adnoddau newydd y Llyfrgell oedd £17.43m (2021-2022: £18.78m) a chyfanswm yr adnoddau a wariwyd oedd £19.39m (2021-2022: £15.78m).

Gostyngodd y gronfa gyhoeddus anghyfyngedig o £1,580k i £1,055k.

Roedd balansau'r gronfa ar 31 Mawrth 2023 yn £102.3m (31 Mawrth 2022 £83.0m).

4.2 Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau

Cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau Ddatganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer elusennau ym mis Hydref 1995, a ddiweddarwyd ddiwethaf gan SORP Elusennau 2015. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio â'r SORP ers cyhoeddi ei chyfrifon 1996-1997.

4.3 Priso Asedau Diriaethol Sefydlog

Comisiynodd y Llyfrgell ailbrisiad gan Cooke & Arkwright, Syrfewyr Siartredig, o adeiladau'r Llyfrgell a'i thir rhydd-ddaliadol ar 31 Mawrth 2021. Caiff gwerthoedd tir ac adeiladau eu haddasu'n flynyddol drwy fynegeo rhwng pob prisiad ffurfiol sydd fel arfer yn digwydd bob pum mlynedd. Nid yw asedau sefydlog eraill yn cael eu hailbrisiu na'u mynegeo, ac o 2017-2018, fe'u delir ar gost wreiddiol namyn dibrisiant.

4.4 Polisi Cronfeydd Elusennol

Mae SORP Elusennau 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell ddatgelu ei pholisi ar Gronfeydd Wrth Gefn.

4.4.1 Cronfeydd Cyhoeddus Anghyfyngedig

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn dibynnu ar hyn o bryd ar Lywodraeth Cymru i gynnal y rhan fwyaf o'i gweithgareddau. Polisi cronfeydd wrth gefn Arian Cyhoeddus y Llyfrgell yw cydymffurfio â gofynion Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r fframwaith ariannol y mae'n ofynnol i'r Llyfrgell weithredu oddi tano. Prif ofyniad y Ddogfen Fframwaith mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn yw mai dim ond 2% o Gymorth Grant gros y gellir ei ddal fel balansau arian parod. Effaith hyn yn y pen draw fydd cyfyngu ar lefel y cronfeydd wrth gefn y gellir eu cynnal. Mae lefelau isel o gronfeydd wrth gefn a chyfalaf gwaith yn arbennig o anodd mewn cyfnod o ansicrwydd ariannol a byddai lliniaru risgiau yn cyfiawnhau cadw lefelau uwch o gronfeydd wrth gefn oherwydd y rhagolygon ariannol. Mae hefyd yn wir nad ellir gwario cronfeydd cyhoeddus heb roi gwybod i Lywodraeth Cymru fel y gall eu cynnwys yn ei chynlluniau cyllideb ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru.

4.4.2 Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig

Mae cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yn cynrychioli Grantiau Cyfalaf a Phrynu a gafwyd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw grant a gafwyd gan gorff cyhoeddus at ddibenion penodol. Mae'r cyllid hwn hefyd wedi'i gyfyngu i 2% o Gymorth Grant gros i'w gario drosodd i falansau arian parod.

4.4.3 Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig

Mae gan gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell dri phrif amcan:

- Cyfrannu at gostau refeniw rhedeg gwasanaethau'r Llyfrgell.
- Ategu'r Grant Prynu Casgliadau i alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei pholisi casgliadau.
- Ariannu buddsoddiad cyfalaf neu ddatblygiadau yn y dyfodol gan gynnwys offer, adeiladau a chaledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol.

Mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn cael ei hadolygu a'i monitro gan y Bwrdd drwy'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a chytunwyd arni yn Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Llyfrgell.

4.4.4 Cronfeydd Preifat Cyfyngedig

Dim ond yn unol ag unrhyw delerau amodedig pob cymynrodd benodol y gellir defnyddio cronfeydd preifat cyfyngedig y Llyfrgell. Dim ond at y dibenion a ddisgrifir y gellir eu defnyddio ac felly fe'u defnyddir dim ond pan fydd eitem o wariant sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa yn cael ei chymeradwyo gan y Bwrdd neu'r cyllidwr.

4.5 Polisi Buddsoddi

Mae'r portffolio wedi'i fuddsoddi mewn ecwitiâu a bondiau ac mae'r swm y gellir ei fuddsoddi mewn gwahanol ddsbarthiadau asedau wedi'i osod yn unol ag asesiad risg. Ystyrir bod agwedd y Llyfrgell tuag at risg yn "gymedrol", gan dderbyn y bydd risg o ganlyniad i fuddsoddi mewn bondiau ac ecwitiâu, er mwyn sicrhau enillion uwch na rhoi arian parod mewn cyfrif cadw.

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r Polisi a'r Strategaeth Fuddsoddi yn flynyddol, sy'n cynnwys ystyried buddsoddiadau cymdeithasol, amgylcheddol neu foesebol.

Mae'r Llyfrgell wedi penodi rheolwyr buddsoddi, Investec Wealth & Investment, sy'n gyfrifol am fuddsoddi portffolio cronfeydd preifat. Mae'r rheolwyr wedi cael meincnod ar gyfer perfformiad y portffolio buddsoddi, ac yn 2022-2023 cafwyd enillion o -5.5% yn erbyn meincnod o -2.0% (2021-2022: 5.9% yn erbyn meincnod o 7.8%).

Rheolwyd y buddsoddiadau yn ôl disgrisiwn yn unol â gofynion Deddf Buddsoddiadau Ymddiriedolion 1961 ac yn ddiweddarach Deddf Ymddiriedolion 2000. Caiff perfformiad y portffolio ei fonitro a'i gyflwyno'n rheolaidd ar ffurf adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol a'r Ymddiriedolion. Ar 31 Mawrth 2023, gwerth marchnad y buddsoddiadau a'r arian parod oedd £13.55m (£14.28m ar 31 Mawrth 2022).

4.6 Risgiau allweddol

4.6.1 Cynllunio ariannol

Mae'r Llyfrgell wedi paratoi Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y tair blynedd 2023-2024 i 2025-2026 sy'n cwmpasu gwariant refeniw a chyfalaf. Amlyga'r cynllun fod angen i'r Llyfrgell ddefnyddio cronfeydd preifat anghyfyngedig yn ystod y cyfnod i dalu am ddiffygion cyllid disgwylidiedig.

Mae cronfeydd preifat anghyfyngedig ar gael i'r Bwrdd er mwyn rheoli risg ariannol fel rhan o'i bolisi cronfeydd wrth gefn.

4.6.2 Cynllun Pensiwn

Cafwyd prisiad actiwaraidd o'r cynllun ar 31 Mawrth 2022. Dyma brif ganlyniadau prisiad actiwaraidd y Cynllun ar y dyddiad hwn:

- Mae'r lefel gyllid ar 31 Mawrth 2022 wedi gostwng i 99% (2019: 100%).
- Erbyn hyn mae diffyg asedau mewn perthynas â'r rhwymedigaethau cronodig ar 31 Mawrth 2022 o £1.0m (2019: roedd gwarged o £0.3 miliwn).
- Mae cyfradd cyfraniadau'r Llyfrgell sy'n ofynnol ar gyfer talu cronriad buddion gwasanaeth yn y dyfodol, gydag oedran ymddeol arferol o 65, wedi cynyddu i 41.3% o gyflogau pensiynadwy (2019: 34.2%)

Gyda'r newidiadau sylweddol yng nghynnyrch giltiau'r DU a'i marchnadoedd buddsoddi a ddigwyddodd ym mis Medi 2022, gwnaed asesiad wedi'i ddiweddarau o'r sefyllfa brisio ar 31 Mawrth 2023, a oedd yn dangos:

- Bod y lefel gyllid ar 31 Mawrth 2023 wedi gostwng i 90%
- Mai'r diffyg cyllid ar y dyddiad hwn oedd £6.6 miliwn
- Bod cyfradd cyfraniadau'r Llyfrgell sy'n ofynnol er mwyn talu cronriad y buddion gwasanaeth yn y dyfodol, gydag oedran ymddeol arferol o 65, wedi cynyddu i 22.8% o gyflogau pensiynadwy.

Mae'r Llyfrgell wedi cytuno i dalu cyfraniadau ar gyfradd o 22.8% o gyflogau pensiynadwy o fis Mai 2023 i dalu cost cronriad y dyfodol. Yn ogystal, bydd y Llyfrgell yn talu £45,000 arall y mis, gan ddechrau ym mis Mai 2023 ac yn cynyddu bob 1 Ebrill yn ôl y cynnydd yn y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ynghyd ag 1% dros y flwyddyn i'r mis Medi blaenorol, tan fis Mawrth 2038.

Fel ar 1 Gorffennaf 2017 gallai staff presennol hefyd ddewis cyfrannu naill ai 3% o'u cyflog tuag at beidio â chael gostyngiad yn eu pensiwn os byddant yn ymddeol yn 60 oed neu dderbyn bod yr oedran ymddeol wedi newid i 65, ac felly y bydd gostyngiad actiwaraidd yn y pensiwn os byddant yn ymddeol cyn y dyddiad hwn. Mae gan aelodau newydd o staff ar ôl y dyddiad hwn ddyddiad ymddeol arferol o 65.

Bydd prisiad actiwaraidd nesaf y cynllun yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2025. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn ystyried opsiynau ar gyfer trefniadau pensiwn y dyfodol.

5 ADRODDIAD CYNALIADWYEDD

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Drysorlys EF yn Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: Canllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd. Yn ystod 2022-2023, cyflawnwyd y canlynol:

	2022-2023	2021-2022	2020-2021
Defnydd o ddŵr			
Defnydd o ddŵr m ³	6,095	6,559	6,139
Defnydd o ddŵr m ³ fesul FTE*	26.73	30.78	28.46
Costau'r cyflenwad dŵr £	£25,209	£27,785	£23,110
Defnydd o bapur			
Defnydd o bapur mewn rimiau (allanol a mewnol)	605	262	6
Defnydd o bapur mewn rimiau (defnydd mewnol)	281	199	2
Gwastraff			
Cyfanswm gwastraff (tunelli)	33.37	38.99	14.17
Wedi'i aildddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio	18.66	12.21	3.55
Safle tirlenwi	14.71	26.78	10.62
Peryglus	-	-	-
Gwastraff wedi'i aildddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio fel % o'r holl wastraff	55.9%	31.3%	25.0%
Cyfanswm y gost waredu	£17,756	£12,003	£8,344
Allrydiadau nwyon tŷ gwydr			
Cyfanswm cyfwerth y tunelli o allyriadau CO ₂			
Gellir eu priodoli i deithio busnes	11	4	0
Gellir eu priodoli i ddefnydd ynni (1,000 tCO ₂ e)			
Trydan a Nwy	934	1,020	1,133
I'w priodoli i ddefnydd ynni			
Trydan (kWh)	2,193,141	2,210,485	2,235,894
Nwy (kWh)	2,838,187	3,019,497	3,348,749
Gwariant ar deithio busnes £ (Car, Trên, Bws ac Awyren)	£24,019	£6,334	£51
Cyfanswm gwariant ynni £	£494,141	£401,447	£354,872

*FTE = cyfwerth ag amser llawn

Nodyn ar Ynni:

Mae'r costau'n gyfanswm ar gyfer y safle gan gynnwys ynni a gyflenwyd i adeilad cyfagos, ond dim ond ar gyfer adeiladau'r Llyfrgell Genedlaethol y mae'r defnydd.

Mae gwastraff garddwriaethol sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle yn cael ei gompostio ar y safle. Ni fesurir maint y gwastraff hwn.

6 POLISI'AU'N YMWNEUD Â STAFF

6.1 Cyflog Byw

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i dalu'r cyflog byw fel y'u nodir gan y Sefydliad Cyflog Byw ers Ebrill 2014.

6.2 Recriwtio a Chadw Staff

Dim ond trwy ymrwymiad ei staff y gall y Llyfrgell gyflawni ei nodau; felly, mae'r Llyfrgell yn canolbwyntio ar ddarparu rhaglen hyfforddi a datblygu staff yn flynyddol i sicrhau bod pob aelod o staff yn cyrraedd ei botensial.

6.3 Cyflogi Pobl Anabl

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu gweithdrefn recriwtio anwahaniaethol ac mae bob amser yn barod i ystyried ceisiadau gan bobl anabl, a phenodi pobl anabl. Mae'r Llyfrgell yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gweithwyr anabl yn cael y cyfleusterau sy'n angenrheidiol i gyflawni eu cyflogaeth yn effeithiol.

6.4 Ymgynghori â Gweithwyr

Mae'r Llyfrgell yn cyfleu gwybodaeth i staff drwy amrywiol ddulliau gan gynnwys cyfarfodydd staff, negeseuon e-bost wythnosol, sesiynau briffio tîm, Briff Craidd, ac ymgynghori a thrafod rheolaidd gyda'r Cyngor Partneriaeth a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur cenedlaethol. Mabwysiadodd y Llyfrgell Strategaeth Cyfathrebu Mewnol yn 2016 a bu gweithredu'r Strategaeth hon yn gyfle i ddatblygu'r berthynas rhwng rheolwyr a staff.

6.5 Adroddiad ar Dâl

Mae'r Llyfrgell yn talu ei holl staff o dan system gyflog a graddio y cytunwyd arni. Cafodd y system bresennol ei chymeradwyo gan Dîm Gweithredol y Llyfrgell a chytunwyd arni gyda'r undebau staff drwy'r trefniadau cydfargeinio.. Mae proses apelio annibynnol ar waith i ystyried materion graddio.

Bob blwyddyn, mae'r Llyfrgell, mewn ymgynghoriad â'r undebau staff, yn ystyried pecyn tâl y Llyfrgell yn erbyn cymaryddion allanol, symudiadau yn yr economi ac unrhyw annhegwch mewnol a allai fod wedi datblygu. O hyn, cynhyrchir cylch gwaith neu gynnig cyflog a chyflwynir hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac yna caiff ei drafod yn ffurfiol gyda'r undebau. Mae hyn yn arwain at becyn cyflog ac amodau newydd ar gyfer holl staff y Llyfrgell sy'n rhwymol tan y cylch trafod nesaf. Mae cynnydd cynyddrannol o dan y cylch gwaith cyflog yn dibynnu ar system arfarniadau blynyddol y Llyfrgell. Dyfernir elfennau chwyddiant a gynhwysir yn y cylch gwaith tâl y cytunwyd arno yn awtomatig i bob aelod o staff.

Mae cyflogau'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r tri Chyfarwyddwr wedi'u cynnwys fel rhan o'r trafodaethau cylch gwaith tâl mewn perthynas â holl staff y Llyfrgell. Mae gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd a'r tri Chyfarwyddwr gontractau cyflogaeth parhaol. Mae'r pedwar yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Cymeradwyir y cylch gwaith tâl gan Lywodraeth Cymru. Dangosir aelodaeth y Tîm Gweithredol ar dudalen 2 a dangosir manylion pellach am y buddion pensiwn a thâl yn Nodyn 8(c) i'r cyfrifon. Y cyfnod rhybudd ar gyfer aelodau'r Tîm Gweithredol yw 3 mis. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer iawndal am ddod â swydd i ben yn gynnwys wedi'i chynnwys yng nghytundeb diswyddo safonol y Llyfrgell.

7 CYNLLUNIAU AR GYFER CYFNODAU YN Y DYFODOL

Yn ystod 2021-2022 dechreuodd y Llyfrgell weithredu Cynllun Strategol newydd ar gyfer 2021-2026 o dan y teitl 'Llyfrgell i Gymru a'r Byd'. Cymeradwywyd y fersiwn terfynol gan Fwrdd yr Ymddiriedolion ym mis Ionawr 2021. Mae'n gynllun uchelgeisiol sy'n darparu ffocws a chyfeiriad clir, cydlynol a blaenoriaethol i bawb sy'n ymwneud â'r sefydliad hyd at 2026.

Mae'r cynllun newydd yn nodi pedwar amcan strategol a llesiant:

- Meithrin a gofalu am gof y genedl
- Gosod sylfaen economi wybodaeth
- Bod yn ganolog i fywyd Cymru
- Grymuso dysgu ac ymchwil

Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystyriaeth allweddol wrth ddrafftio'r Cynllun Strategol newydd ac ystyriwyd gofynion y Ddeddf wrth lunio cynlluniau i gyflawni mewn perthynas â'r amcanion.

Amcan Strategol I Meithrin a gofalu am gof y genedl	Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Crisialu Cymru gyfoes ➤ Ymroi i amrywedd ➤ Arwain o ran diogelu a thrin gwybodaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn datblygu ac yn buddsoddi yn y gwaith o gasglu a diogelu deunydd digidol o fformatau amrywiol • Byddwn yn sefydlu Archif Ddarlledu Genedlaethol a fydd yn gofnod cyfoethog a chynhwysfawr o fywyd yn yr 20fed a'r 21ain Ganrif • Byddwn yn darparu arweiniad a chynghor ar sut i'w gadw a chodi ymwybyddiaeth o'r risgiau o golli'r cof cenedlaethol yn yr oes ddigidol • Byddwn yn datblygu ein perthynas gyda llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd ac eraill yn y sector treftadaeth yn y gwaith o gasglu cof y genedl • Byddwn yn meithrin ein cysylltiadau gyda chymunedau ethnig amrywiol ledled Cymru • Byddwn gweithio gyda'r cymunedau hyn wrth ddatblygu ein Polisi Casglu • Byddwn yn adolygu ein dulliau o ddisgrifio, dehongli a hyrwyddo ein casgliadau • Byddwn yn buddsoddi yn y gwaith o feithrin a throsglwyddo sgiliau cadwraeth ffisegol a digidol o fewn i'r Llyfrgell ac ar draws y sector • Byddwn yn buddsoddi yn natblygiad ein hisadeiledd technegol fel cartref dibynadwy i'n casgliadau digidol • Byddwn yn cefnogi sefydliadau eraill yn y gwaith o ddiogelu casgliadau digidol • Byddwn yn cydweithio ar lefel rhyngwladol wrth rannu arfer da ym maes trin gwybodaeth, cadwraeth a datblygu casgliadau

Amcan Strategol 2 Gosod sylfaen economi gwybodaeth	Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwybodaeth sy'n ysgogi ac ysbrydoli ➤ Creu cyfleon i gyfranogi ➤ Gwella profiad y defnyddiwr 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn adolygu'r ffordd yr ydym yn disgrifio casgliadau yn barhaus er mwyn darparu mynediad effeithlon a rhoi amlygrwydd i gasgliadau 'cudd' • Byddwn yn gwella mynediad i gasgliadau ffisegol trwy barhau â'n rhaglenni digido • Byddwn yn chwilio am gyfleon i gynyddu defnydd o'r casgliadau gan fusnesau a'r sector greadigol • Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ffurf agored a hygyrch • Byddwn yn creu cyfleon i wirfoddoli ar ein safleoedd • Byddwn yn cynyddu'r cyfleon i wirfoddoli ac ymgysylltu â'r casgliadau'n ddigidol trwy dulliau megis torfoli • Byddwn yn cefnogi rhaglenni a phrosiectau cyfranogol cenedlaethol a rhyngwladol • Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o ehangu mynediad i wybodaeth • Byddwn yn sicrhau fod adborth a llais y defnyddiwr yn ganolog i ddatblygiad ein gwasanaethau • Byddwn yn buddsoddi yn yr adeilad yn Aberystwyth fel cyrchfan i ymwelwyr o Gymru â'r byd i ymchwilio, darganfod a mwynhau
Amcan Strategol 3 Bod yn ganolog i fywyd Cymru	Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cysylltu cymunedau ➤ Rhannu casgliadau ➤ Hyrwyddo Cymru fyd-eang 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn buddsoddi yn adeiladu ein perthynas a'n cysylltiad ag unigolion a chymunedau i gynyddu gwerth a thraweffaith ein casgliadau a gwasanaethau • Byddwn yn sefydlu cysylltiadau gyda cymunedau a cynulleidfaoedd newydd • Byddwn yn ystyried pob cyfle i ehangu ein cysylltiadau gyda sefydliadau a chyrrff cyhoeddus ar draws Cymru a thu hwnt • Byddwn yn gwella mynediad a cysylltiadau ar draws Cymru trwy weithgareddau'r Archif Ddarlledu Genedlaethol • Byddwn yn rhannu ein casgliadau yn eang ac agored gyda'r nod o gael y • cyrhaeddiad mwyaf a'r ymgysylltiad dyfnaf • Byddwn yn datblygu dulliau a sianeli ar gyfer cydweithio â'r cyhoedd i gyd-ddehongli ein hanes a'n diwylliant • Byddwn yn cynnal arddangosfeydd a digwyddiadau sy'n ymdrin a themâu amserol a pherthnasol i Gymru heddiw • Byddwn yn hyrwyddo safleoedd y Llyfrgell fel atyniadau diwylliannol • Byddwn yn datblygu a gweithredu Strategaeth Rhyngwladol ac yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i hyrwyddo Cymru ar lwyfan byd eang

	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn parhau i feithrin a chryfhau ein perthynas â'r diaspora Cymreig
Amcan Strategol 4 Grymuso ymchwil a dysg	Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Galluogi ymchwil ac arloesedd ➤ Cefnogi addysg ffurfiol ➤ Hybu dysgu anffurfiol 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddwn yn meithrin perthynas gyda Sefydliadau Addysg Uwch a thimoedd ymchwil sydd â diddordeb yn y casgliadau • Byddwn yn archwilio ac arbrofi gyda thechnolegau newydd fel modd o wella mynediad ac ymchwil, gan gefnogi agweddau fel data daearyddol, deallusrwydd artifffisial a mabwysiadu cysyniadau fel 'casgliadau fel data' • Byddwn yn cydweithio gyda partneriaid a rhanddeiliaid gyda'r nod o sefydlu cadwrfa ddigidol dibynadwy achrededig fel isadeiledd ar gyfer ymchwil • Byddwn yn parhau i gyfrannu at ddatblygiad y Cwricwlwm i Gymru • Byddwn yn parhau i gynyddu'n darpariaeth o adnoddau dysgu digidol ein hunain ac ar y cyd â phartneriaid • Byddwn yn buddsoddi yn ein gwasanaethau i ysgolion ac addysg ôl-16 • Datblygu rhaglen addysgu anffurfiol i feithrin sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth • Byddwn yn cynyddu'r cynnwys deongliadol sydd ar gael ar-lein fel adnoddau ar gyfer addysg anffurfiol • Byddwn yn chwilio am cyfleon i gydweithio â phartneriaid i gefnogi addysg anffurfiol mewn cymunedau ledled Cymru

Ymddiriedolion

Mae'r Ymddiriedolion wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sylw dyladwy i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau.

Archwilydd

Archwilir y Cyfrifon gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol ag Adran 9(8) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992 i Gymru

Pedr ap Llwyd
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
22 Mawrth 2024

Gronw Percy
TRYSORYDD
22 Mawrth 2024

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD A'R LLYFRGELLYDD

O dan Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992, mae gofyn i Fwrdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru baratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf ac ar y sail a bennir gan Weinidogion Llywodraeth Cymru gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon i roi darlun cywir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell mae gofyn i'r Bwrdd:-

- Ddilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan weinidogion Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a'u cymhwyso'n gyson.
- Llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth.
- Datgan a oes safonau cyfrifyddu perthnasol a datganiadau o arfer a argymhellir wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Llyfrgell yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddu'r Llyfrgell. Nodir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.

Datganiad o Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Pedr ap Llwyd
PRIF WEITHREDWR A LLYFRGELLYDD
22 Mawrth 2024

Cymeradwywyd ar ran y Bwrdd gan

Gronw Percy
TRYSORYDD
22 Mawrth 2024

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llyfrgell Genedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy Elusennau (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2023 a'i hincwm net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig;
- ac wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail i'r farn

Cynhaliats fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol. Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Llyfrgell Genedlaethol Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol. Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn y Cyfrifon Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio a'm hadroddiad archwilydd arnynt.

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir yn benodol fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol.

Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi sôn am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Barn am faterion eraill

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol am Adroddiad ar Dâl, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi paratoi adroddiad felly ac, yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EF.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt trwy eithriad

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y Cyfrifon Blynyddol. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr adroddaf i chi os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu os na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill..

Cyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Llyfrgellydd am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Bwrdd yr Ymddiriedolion a'r Llyfrgellydd, mae'r Bwrdd a'r Llyfrgellydd fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am

- gadw cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Cyfrifon Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;

- unrhyw reolaethau mewnol y cred y Swyddog Cyfrifyddu eu bod yn angenrheidiol er mwyn paratoi datganiad ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall; ac
- asesu gallu'r Llyfrgell Genedlaethol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Oriolau 1992.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu, yn unigol neu gyda'i gilydd, ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisiâu a gweithdrefnau Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n ymwneud â:
- nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
- canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru; a
- chael dealltwriaeth o berthnasoedd partion perthynol.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;

- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a chynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â risg twyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r drefn fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio ac yn cadw'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheoli mewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 Mawrth 2024

I Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

Nodiadau	CRONFEYDD CYHOEDDUS		CRONFEYDD PREIFAT		2022-2023	2021-2022	
	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Anghyfyngedig £'000	Cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000	(fel yr ailddatganwyd) Cyfanswm £'000	
Incwm:							
Rhoddion a chymynroddion	16b	-	-	160	306	466	217
Gweithgareddau elusennol							
Grantiau'r Llywodraeth	2	12,155	3,331	-	-	15,486	17,159
Grantiau Eraill	3	-	708	-	-	708	815
Gweithgareddau masnachu eraill	4	492	-	-	-	492	353
Incwm buddsoddi	16b	-	-	273	5	278	232
Cyfanswm Incwm		12,647	4,039	433	311	17,430	18,776
Gwariant:							
Costau codi arian	5	986	121	53	1	1,161	617
Gweithgareddau elusennol:							
Casgliad	5	4,297	1,336	-	-	5,633	3,283
Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	5	2,378	618	-	-	2,996	3,903
Rhoi Cyhoeddusrwydd a Dehongli	5	2,841	832	-	44	3,717	2,055
Cadw a Gwarchod	5	2,621	322	-	-	2,943	3,804
Llywodraethu	5	2,184	269	-	-	2,453	1,785
Cyfanswm y gwariant		15,307	3,498	53	45	18,903	15,447
Costau Cyllid Pensiwn	23d	490	-	-	-	490	330
Cyfanswm y gwariant		15,797	3,498	53	45	19,393	15,777
Enillion/ (colledion) net ar fuddsoddiadau	16b	-	-	(959)	8	(951)	468
Incwm/ (gwariant) net		(3,150)	541	(579)	274	(2,914)	3,467
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	16	(705)	571	166	(32)	-	-
		(3,855)	1,112	(413)	242	(2,914)	3,467
Enillion cydnabyddedig eraill/ (colledion):							
Enillion/ (Colledion) ar waredu asedau sefydlog		-	(3)	-	-	(3)	(21)
Ailbriso Agedau Sefydlog	10	-	4,236	-	-	4,236	4,751
Diriaethol, Mynegeio ac amhariad							
Enillion / (colledion) actiwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion diffiniedig	23e	18,010	-	-	-	18,010	(3,380)
Cyfanswm enillion / (colledion)		18,010	4,233	-	-	22,243	1,350
SYMUDIAD NET MEWN CRONFEYDDAM Y FLWYDDYN ARIANNOL		14,155	5,345	(413)	242	19,329	4,817
BALANSAU'R CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 1 BRILL	16	(31,180)	90,703	15,615	7,883	83,021	78,204
BALANSAU'R CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN AR 31 MAWRTH	16	(17,025)	96,048	15,202	8,125	102,350	83,021

Mae'r holl weithgareddau yn parhau. Cofnodir yr holl enillion a cholledion cydnabyddedig yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 61 yn rhan o'r cyfrifon hyn. Nid oes unrhyw incwm na gwariant gwaddol i'w adrodd.

Ailddatganwyd blwyddyn ariannol 2021-2022 o ganlyniad i gyfuno'r enillion/colledion realeiddiadwy ac anrealeiddiadwy a gododd o fuddsoddiadau.

Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2023

	Nodiadau	31 Mawrth 2023		31 Mawrth 2022	
		£000	£000	£000	£000
ASEDAU SEFYDLOG					
Asedau Diriaethol	10	79,320		73,227	
Asedau Anniriaethol	10	203		270	
Asedau Treftadaeth	12	23,562		22,933	
Buddsoddiadau	11	13,550		14,277	
			116,635		110,707
ASEDAU CYFREDOL					
Stociau		47		47	
Dyledwyr	13	2,868		2,821	
Banc		1,986		2,840	
		4,901		5,708	
CREDYDWYR					
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	14	(606)		(634)	
ASEDAU CYFREDOL NET					
			4,295		5,074
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	15		(500)		-
Asedau net ac eithrio cynllun pensiwn anghyfyngedig			120,430		115,781
Rhwymedigaeth pensiwn buddion wedi'u diffinio	23		(18,080)		(32,760)
ASEDAU NET GAN GYNNWYS RHWYMEDIGAETH'R CYNLLUN PENSIWN					
			102,350		83,021
CRONFEYDD					
Cyhoeddus Anghyfyngedig	16	1,055		1,580	
Cronfa Bensiwn		(18,080)		(32,760)	
Cyfanswm Cronfeydd Anghyfyngedig		(17,025)		(31,180)	
Cyhoeddus					
Cyfyngedig Cyhoeddus (ac eithrio'r Gronfa Ailbrisiu)		65,691		64,582	
Cronfa Ailbrisiu		30,357		26,121	
Preifat Anghyfyngedig		15,202		15,615	
Preifat Cyfyngedig		181		230	
Casgliadau Cyfyngedig Preifat		7,944		7,653	
			102,350		83,021

Mae'r ymddiriedolion wedi paratoi'r cyfrifon yn unol ag adran 132 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 61 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

DATGANIAD LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

		2022-2023		2021-2022	
		£000	£000	£000	£000
Arian a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu	18		3,387		5,176
Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi:-					
Prynu asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol	10	(3,679)		(3,470)	
Prynu asedau treftadaeth	12	(338)		(302)	
Elw o werthu buddsoddiadau	11	4,032		5,373	
Prynu Buddsoddiadau	11	(4,452)		(6,686)	
Arian net a ddarparwyd gan/(a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi			(4,437)		(5,084)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn			(1,050)		92
Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn			3,159		3,067
Cyfanswm arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	19		2,109		3,159

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 61 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

NODIADAU I'R CYFRIFON AR 31 MAWRTH 2023

I POLISI'AU CYFRIFYDDU

The principal accounting policies adopted, judgements and key sources of estimation uncertainty in the preparation of the financial statements are as follows:

(a) **Sail y paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102), y SORP Elusennau (FRS 102), a Chyfarwyddyd Cyfrifon 2007 a gyhoeddwyd i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Cydnabyddir asedau a rhwymedigaethau i ddechrau yn ôl cost hanesyddol neu werth trafodyn oni nodir yn wahanol yn y nodyn neu nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

Mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion y Safonau Cyfrifyddu a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol i'r graddau y mae'r gofynion hynny'n briodol. Nid yw'r Cyfarwyddyd Cyfrifon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llyfrgell gynhyrchu cyfrif incwm a gwariant cryno na nodyn o gost hanesyddol ar wargedion neu ddiffygion.

(b) **Adnoddau a Dderbynnir**

Mae'r holl incwm yn cael ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawl i'r arian, pan fydd unrhyw amodau perfformiad sydd ynghlwm wrth yr eitem wedi'u bodloni, pan fo'n debygol y derbynnir yr incwm ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Mae pob Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFFA) ar sail dderbyniadwy. Mae grantiau eraill o natur fwy penodol yn cael eu cydnabod ar sail dderbyniadwy pan fodlonir amodau grant.

Ar gyfer cymynroddion, cymerir hawl fel y cynharaf o'r dyddiadau canlynol; mae'r elusen yn ymwybodol bod profeb wedi'i rhoi, bod yr ystâd wedi'i chwblhau a'r ysgutor(ion) wedi rhoi gwybod i'r Llyfrgell y bydd dosbarthiad yn cael ei wneud, neu pan geir dosbarthiad gan yr ystâd. Lle rhoddwyd gwybod i'r elusen fod cymynroddion neu os yw'r elusen yn ymwybodol o roi profeb, ac nad yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi'u bodloni, yna mae'r gymynrodd yn cael ei thrin fel ased digwyddiadol a'i datgelu os yw'n berthnasol. Cyfrifir am drosgrwyddiadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried symudiadau mewn cyfalaf gweithio. Bydd incwm a geir yn ymwneud â chyfnodau cyfrifyddu dilynol yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Cyfrifyddu Cronfeydd

Mae arian anghyfyngedig (cyhoeddus a phreifat) ar gael i'w wario ar weithgareddau sy'n hyrwyddo unrhyw un o amcanion cyffredinol y Llyfrgell. Mae cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yn cynrychioli Grantiau Cyfalaf a Phrynu a gafwyd gan Lywodraeth Cymru at ddibenion penodol.

Mae cronfeydd cyfyngedig preifat yn gronfeydd sy'n destun cyfyngiad penodol a osodwyd gan roddwyr neu gan ddiben yr apêl. Mae cronfeydd dynodedig yn gronfeydd anghyfyngedig yr elusen y mae'r ymddiriedolion wedi penderfynu yn ôl eu disgrisiwn i'w neilltuo at ddiben penodol. Cronfeydd preifat yw'r rhoddion y mae'r rhoddwr wedi pennu eu bod i'w defnyddio

ar gyfer rhannau penodol o waith y Llyfrgell yn unig neu ar gyfer prosiect penodol sy'n cael ei wneud gan y Llyfrgell.

(c) Gwariant

Cydnabyddir gwariant pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, mae'n debygol y bydd angen setliad ac y gellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Pan fydd gwariant wedi'i ysgwyddo ymlaen llaw ac yn ymwneud â chyfnod diweddarach, ni fydd y cyfrifon ond yn ystyried rhagdaliad os yw'n uwch na £5,000 mewn gwerth. Pan fydd gwariant wedi'i ysgwyddo mewn ôl-ddyledion ond yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol gyfredol, ni fydd y cyfrifon ond yn ystyried cronriad os yw'n fwy na £5,000 mewn gwerth. Dosberthir gwariant o dan y penawdau gweithgaredd canlynol:

- Mae cost codi arian yn cynnwys cost masnachu masnachol, costau codi arian a ffioedd rheoli buddsoddiadau.
- Mae gwariant gweithgareddau elusennol yn cynnwys cost cynnal casgliadau, cadwraeth, addysg ac arddangosfeydd a gweithgareddau eraill a wneir i hyrwyddo dibenion yr elusen.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli'r eitemau hynny nad ydynt yn perthyn i unrhyw benawdau eraill.

(d) Buddsoddiadau

Nodir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae enillion a cholledion adeg gwaredu yn cael eu credydu neu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae symudiadau yng ngwerth marchnadol buddsoddiadau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y datganiad hwnnw yn unol â'r SORP Elusennau (FRS 102).

(e) Asedau Diriaethol ac Anniriaethol

Caiff offer, peiriannau, cyfarpar a cherbydau modur unigol sy'n costio £5,000 neu fwy eu cyfalafu am gost, oni bai bod y cyfarpar yn rhan o grŵp o asedau, rhwydwaith neu brosiect lle mae'r gwerth dros £5,000. Mae asedau'n cael eu dibrisio dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig ar sail llinell syth. Nid yw eitemau o natur gyfalaf sy'n costio llai na £5,000 yn cael eu cyfalafu ac maent yn cael eu diddymu yn ystod y flwyddyn. Mae asedau heblaw eiddo (h.y. offer a cherbydau, a gosodiadau, ffitiadau a chyfarpar) yn cael eu dal ar gost hanesyddol ac nid ydynt yn cael eu mynegeo gan fod gan yr asedau hyn fywydau economaidd defnyddiol byr neu werthoedd isel (neu'r ddau). Ystyrir bod hyn yn darparu cynrychiolaeth fwy dibynadwy, priodol a pherthnasol o werth teg yr asedau hyn. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 10.

Fel arfer caiff asedau tir ac adeiladau eu prasio'n broffesiynol bob pum mlynedd ar sail eu gwerth presennol o ran y defnydd cyfredol gan dybio y byddai'r eiddo'n cael ei werthu fel rhan o fusnes parhaus ac yn cael eu hailbrisio gan ddefnyddio mynegai yn y cyfamser.

Cydnabyddir enillion ailbrisio yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol o dan enillion/(colledion) adeg ailbrisio asedau sefydlog, ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwysu unrhyw ddiddymu gwariant blaenorol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, ac os felly caiff yr enillion eu gwrthdroi yn erbyn y pennawd gwariant perthnasol.

Cydnabyddir colledion ailbrisio fel cost o dan y pennawd gwariant perthnasol yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ac eithrio i'r graddau y maent yn gwrthbwysu unrhyw enillion ailbrisio blaenorol, ac os felly dangosir y golled o dan enillion/(colledion) adeg ailbrisio asedau sefydlog. Nodir gwaith cynnal a chadw rheolaidd mewn perthynas â'r eiddo hwn fel cost refeniw yn y flwyddyn y mae'n cael ei wneud.

Darperir dibrisiant yn llawn yn y flwyddyn gaffael, ar gyfraddau a gyfrifir i leihau pob ased i'w werth gweddilliol amcangyfrifedig yn gyfartal dros ei fywyd economaidd defnyddiol disgwylidig, fel y cynghorir gan y priswyr fel a ganlyn:

- Adeiladau rhydd-ddaliadol - hyd at 125 mlynedd
- Offer, peiriannau a chyfarpar - hyd at 30 mlynedd
- Offer cyfrifiadurol a datblygiad digidol - hyd at 10 mlynedd
- Cerbydau Modur - hyd at 5 mlynedd

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio.

Nid yw Pryniannau Casgliad yn cael eu dibrisio (gweler Asedau Treftadaeth (f)).

Mae asedau anniriaethol sydd â bywyd economaidd o fwy na blwyddyn ac sy'n werth mwy na £5,000 yn cael eu cyfalafu. Caiff pob ased anniriaethol ei fesur yn ôl cost. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros gyfnod o 10 mlynedd.

(f) Asedau treftadaeth

Diffinnir asedau treftadaeth fel asedau o bwysigrwydd hanesyddol, artistig neu wyddonol a ddelir er mwyn hyrwyddo amcanion gwarchod, cadwraeth ac addysgol elusennau a sydd trwy fynediad cyhoeddus yn cyfrannu at ddiwylliant ac addysg y genedl ar lefel genedlaethol neu leol. Yn weithredol o 1 Ebrill 2001 ymlaen, mae asedau treftadaeth a brynwyd gennym neu a roddwyd i ni wedi cael eu cyfalafu yn ôl cost/prisiad hanesyddol. Yn unol â chyfarwyddyd cyfrifon y Trysorlys, nid yw asedau a gafaelwyd cyn 1 Ebrill 2001 wedi'u cyfalafu ac ym marn yr Ymddiriedolion ni ellir cyfiawnhau cost sylweddol prisio'r casgliad mawr o asedau treftadaeth ar sail cost a budd. Mae asedau a roddwyd neu a roddwyd yn rhannol yn cael eu prisio gan gyfeirio at anfonebau neu ddogfennau eraill lle bo'r rhain ar gael, ac fel arall gan staff curadurol.

Nid yw'r asedau hyn wedi eu hailbrisio na'u mynegeo.

Nid yw Asedau Treftadaeth yn cael eu dibrisio am fod ganddynt fywyd amhenodol.

Bydd swm cario ased yn cael ei adolygu dim ond pan fydd tystiolaeth o nam.

(g) Stociau

Mae cost stociau eitemau y gellir eu hail-werthu wedi cael ei chydabod yn y fantolen yn ôl yr isaf o gost neu werth sylweddoladwy net. Ni roddir gwerth ar asedau a gynhyrchwyd yn hanesyddol gan y Llyfrgell lle mae marchnad gyfyngedig ar gyfer y nwyddau neu mae nam ar y nwyddau.

(h) Costau Pensiynau

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu ei chynllun pensiwn ei hun sy'n darparu buddion yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol. Codir cyfraniadau i'r cynllun ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywydau gwaith gweithwyr. Cyfrifir y tâl i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn seiliedig ar gost bresennol y gwasanaeth fel y'i cyfrifir gan actiwari'r cynllun.

(i) Tâl gwyliau staff

Ar ddiwedd y flwyddyn, darparwyd ar gyfer hawliau gwyliau staff nad ydynt eto wedi'u cymryd ac sy'n cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf yn y cyfrifon yn unol â gofynion FRS 102.

(j) Treth

Mae'r Llyfrgell wedi derbyn statws elusennol gan CThEF ac felly mae wedi'i heithrio rhag treth ar incwm ac enillion sy'n dod o fewn adran 505 o Ddeddf Trethi 1988 neu adran 252 o Ddeddf Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y mae'r rhain yn cael eu cymhwyso i'w hamcanion elusennol. Codir Treth ar Werth na ellir ei hadennill sy'n deillio o wariant ar weithgareddau anfasnachol ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu caiff ei chyfalafu os yw'n gysylltiedig ag ased sefydlog.

(k) Meysydd arwyddocaol o amcangyfrif a barn

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol, mae gofyn llunio barn, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar werthoedd asedau, rhwymedigaethau, refeniw a threuliau yr adroddir amdanynt. Mae natur amcangyfrif a dyfarnu yn golygu y gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r disgwyl.

Ffynonellau ansicrwydd o ran amcangyfrif

- Mae'r rhwymedigaeth pensiwn buddion wedi'u diffinio yn cael ei chydabod a'i datgelu yn unol â FRS 102. Mae'r prisiad, a baratowyd gan actiwari cymwys, yn adlewyrchu nifer o ddyfarniadau ac amcangyfrifon gan gynnwys yr enillion disgwylidig ar asedau, y gyfradd ddisgownt, chwyddiant costau a disgwyliad oes. Mae newidiadau yn y rhagdybiaethau hyn yn cael effaith sylweddol ar werth y rhwymedigaeth pensiwn buddion wedi'u diffinio. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 23.
- Mae asedau tir ac adeiladau yn cael eu prasio'n broffesiynol o bryd i'w gilydd. Paratoir y prisiad gan syrfewr cymwys ac mae wedi'i baratoi yn unol â Llyfr Coch RICS. Mae adeiladau wedi'u prasio ar sail 'gwerth y farchnad agored' neu 'gost adnewyddu wedi'i dibrisio' a dangosir tir ar 'werth defnydd presennol'. Mae'r dulliau hyn yn destun rhagdybiaethau a dyfarniadau amrywiol a gallai newidiadau yn y naill neu'r llall gael effaith sylweddol ar y prisiad. Darperir manylion pellach yn nodyn 10.

(l) Busnes Gweithredol

Paratowyd cyfrifon y Llyfrgell ar sail busnes gweithredol. Mae Bwrdd y Llyfrgell wedi cydnabod y diffygion cyfrif refeniw sylweddol a ragwelwyd a bydd yn ystyried cynlluniau i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Bydd y lefel sylweddol o gronfeydd preifat anghyfyngedig a chyhoeddus anghyfyngedig yn sicrhau y gall y Llyfrgell barhau â'r gweithgareddau presennol hyd nes y cymerir camau i fynd i'r afael â'r diffyg. Nid oes unrhyw ansicrwydd perthnasol arall ynghylch gallu'r elusen i barhau.

2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH

	2022-2023	2021-2022
	£000	£000
Anghyfyngedig		
Cymorth Grant	12,155	11,644
Cyfyngedig		
Cyfalaf - Grant Prynu	305	305
Cyfalaf - Archif Ddarlledu Cymru	-	1,000
Cyfalaf - Cyffredinol	2,195	3,390
Llyfrgelloedd Digidol	451	450
Casgliad y Werin Cymru	145	121
ARCW	86	218
Eraill	149	31
Cyfanswm y grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru	15,486	17,159

3. GRANTIAU ERAILL

	2022-2023	2021-2022
	£000	£000
Cronfa gyhoeddus gyfyngedig		
Sefydliad Ffilm Prydain	5	27
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol - Archif Ddarlledu Cymru	703	587
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol - Save Our Sounds	-	161
	708	775
Cronfa gyhoeddus anghyfyngedig		
Y Cynllun Cadw Swyddi yn ystod cyfnod y Coronafeirws	-	40
Cyfanswm grantiau eraill	708	815

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Gorffennaf 2021 mae'r Llyfrgell wedi hawlio grant Cynllun Cadw Swyddi yn ystod cyfnod y Coronafeirws sy'n werth cyfanswm o £40k. Roedd angen cau adeilad y Llyfrgell dan ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19. Cafodd y Llyfrgell gymorth i'w chais am gyllid o dan y Cynllun gan Lywodraeth Cymru.

4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHU ERAILL

	2022-2023	2021-2022
	£000	£000
Incwm cyhoeddus anghyfyngedig		
Arlwyo	154	59
Incwm siop	113	54
Digwyddiadau	23	10
Ymgynghoriaeth a systemau	8	8
Incwm a gynhyrchwyd o gasgliadau	75	44
Trwyddedu a breindaliadau	55	90
Amrywiol	64	88
Cyfanswm	492	353

5. DADANSODDIAD O WARIANT

	Costau Staff	Costau uniongyrchol eraill	Dibrisiad ac amorteiddiad	2022-2023 CYFANSWM	2021-2022 CYFANSWM
	£000	£000	£000	£000	£000
Cost codi arian	624	416	121	1,161	617
Gwariant Elusennol					
Casgliad	3,359	1,744	530	5,633	3,283
Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	2,175	528	293	2,996	3,903
Rhoi cyhoeddusrwydd a Dehongli	2,865	502	350	3,717	2,055
Cadw a Gwarchod	2,475	145	323	2,943	3,804
Llywodraethu	826	1,358	269	2,453	1,785
	12,324	4,693	1,886	18,903	15,447

Ar ddechrau Blwyddyn Ariannol 2022-2023 cafodd y Llyfrgell ei had-drefnu. Mae hyn wedi arwain at ddyrannu gwariant i'r gwahanol gategoriâu uchod o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

6. INCWM / (GWARIANT) NET AR GYFER Y FLWYDDYN

	2022-2023	2021-2022
	£000	£000
Nodir hyn ar ôl codi:		
Dibrisiad ac amorteiddiad	1,886	1,575
Tâl yr archwilydd allanol	52	33
Ffioedd archwilio mewnol	16	12
Ffioedd rheoli buddsoddiad	54	55

7. DADANSODDIAD O GOSTAU CYMORTH

I ddechrau, mae'r Llyfrgell yn nodi costau ei swyddogaethau cymorth. Yna mae'n nodi'r costau hynny sy'n ymwneud â'i swyddogaeth lywodraethu. Wedi nodi ei chostau llywodraethu, mae gweddill y costau cymorth yn cael eu dosrannu rhwng cost codi arian a phedwar gweithgaredd elusennol allweddol a geir yn y flwyddyn.

Mae'r gost cyflog cymorth yn cael ei dosrannu yn unol â chostau cyflog ar gyfer pob adran, gyda chost cymorth heblaw staff wedi'i dyrannu ar sail gwarant gweithgaredd.

	Cost codi arian	Llywodraethiant	Casglu	Darparu Mynediad a Gwybodaeth	Hysbysebu a Dehongli	Cadw a Gwarchod	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Cymorth Gweithredol	4	5	22	14	19	16	80
Cyllid	18	51	92	42	48	34	285
Adnoddau Dynol	21	65	107	45	49	32	319
TGCh	120	273	619	323	395	308	2,038
Adeilad	149	439	746	320	358	241	2,253
Arall	2	3	13	9	11	10	48
	314	836	1,599	753	880	641	5,023

8. DADANSODDIAD O GOSTAU STAFF, TÂL A THREULIAU YMDDIRIEDOLION, A CHOST PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

(a) Cyfanswm Costau Staff

	2022-2023		2021-2022	
	£000	£000	£000	£000
Cyflogau		6,931		6,156
Costau Nawdd Cymdeithasol (gan gynnwys Ardoll Brentisiaethau)		713		607
Costau Pensiynau				
Cost Gwasanaeth Cyfredol	1,840		1,657	
Cyfraniad pensiwn ychwanegol	-		1,000	
Addasiad cost gwasanaeth cyfredol FRS 102	2,840		1,130	
		4,680		3,787
Cyflog fel y nodwyd yn nodyn 5		12,324		10,550
Ffi llog cyllid FRS 102 (gweler nodyn 23d)		490		330
Cyfanswm		12,814		10,880

Ni chyflogwyd unrhyw gontractwyr tymor byr nac asiantaeth.

Heblaw am y staff a nodwyd yn 8c, nid oedd unrhyw aelodau o staff a enillodd dros £60,000 (2021-2022- Dim).

(b) Cynllun Pensiwn

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun pensiwn wedi'i ariannu sy'n gynllun pensiwn buddion wedi'u diffinio sy'n darparu buddion ar sail cyflog pensiynadwy terfynol ar oedran ymddeol arferol. Bydd aelodau sy'n gadael y cynllun sydd wedi cyfrannu am gyfnod o lai na 2 flynedd yn cael ad-daliad o gyfraniadau'r aelod. Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1180fed o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Adeg marwolaeth, mae pensiynau'n daladwy i'r priod sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Adeg marwolaeth mewn gwasanaeth mae'r cynllun yn talu budd cyfandaliad. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol.

Mae nodyn 23 yn rhoi gwybod rhagor am gyllid y cynllun pensiwn i gydymffurfio â gofynion FRS 102. Cyhoeddir y datganiad actiwaraid yng Nghyfrifon Blynyddol Cronfa Bensiwn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn 2006-2007, rhoddodd Llywodraeth Cymru Warrant y Goron sy'n eithrio'r Cynllun o'r Gronfa Diogelu Pensiynau a'r ardoll gysylltiedig.

(c) Tâl y Tîm Gweithredol

Nodir aelodaeth y Tîm Gweithredol ar dudalen 2 (Manylion Cyfeirio a Gweinyddol). Nodir telerau ac amodau'r Tîm Gweithredol yn Adran 6 Adroddiad yr Ymddiriedolion (6.5).

Roedd cyflog y Llyfrgellydd 3.71 gwaith cyflog canolrif (£27,226) y Llyfrgell, **4.18** gwaith y cyflog canolrif 25ain canradd (£24,130) a 2.87 gwaith y cyflog canolrif 75ain canradd (£35,170). Ar gyfer 2021-22, roedd cyflog y Llyfrgellydd 3.38 gwaith cyflog canolrif (£28,740) y Llyfrgell, **4.18** gwaith y cyflog canolrif 25ain canradd (£23,202) a 2.87 gwaith y cyflog canolrif 75ain canradd (£33,817). Mae cyflog y Llyfrgellydd wedi cynyddu 4% flwyddyn ar ôl blwyddyn, tra bod y cyflog canolrif wedi gostwng 5%. Mae uwch aelodau eraill o staff yn cael cyflog gros, sy'n cael ei bennu fel rhan o drafodaethau'r cylch gwaith cyflog ar gyfer holl staff eraill y Llyfrgell.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn fel a ganlyn:

- $(\text{cynnydd real mewn pensiwn}^* \times 20) + (\text{cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad}^*) - (\text{cyfraniadau a wnaed gan aelod})$

* ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nodir lluosydd o 20 yn y gofynion datgelu. Mae'r Llyfrgell wedi defnyddio'r ffigur hwn er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau. Nid yw hwn yn swm a dalwyd i unigolyn gan y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn.

Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn e.e. newidiadau yng nghyflog person, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.

Mae Cynllun Pensiwn Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gynllun cyflog terfynol a ariennir. Y pensiynau a'r cyfandaliadau cronodig yw'r symiau a fyddai'n cael eu talu o'r Dyddiad Ymddeol Arferol pe bai'r aelod yn gadael y gwasanaeth ar y dyddiad perthnasol. Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a aseswyd gan actiwari, gan gynnwys unrhyw Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a throsglwyddiadau gwasanaeth i mewn, a

gronwyd gan aelod ar adeg benodol. Mae'r gwerthoedd trosglwyddo wedi'u cyfrifo yn unol â nodyn cyfarwyddyd "GN 11" a gyhoeddwyd gan Sefydliad yr Actiwariaid a Chyfadrannau yr Actiwariaid. Cyfradd dybiedig chwyddiant prisiau oedd 10.1% (2021-2022 3.1%).

Gwnaed y taliadau canlynol i aelodau'r Tîm Gweithredol:

	2022-2023			2021-2022 (fel yr ailddatganwyd)		
	Cyflog Cyfunol	Cynnydd (gostyngiad) real mewn buddion	Ffigwr Cyfanswm Tâl Unigol	Cyflog Cyfunol	Cynnydd (gostyngiad) real mewn buddion	Ffigwr Cyfanswm Tâl Unigol
	£	£	£	£	£	£
Mr P ap Llwyd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	101,285	(5,300)	95,985	97,013	15,880	112,893
Mr. DH Michael Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	84,811	(15,640)	69,171	80,958	9,074	90,032
Dr O Roberts Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	83,868	4,186	88,054	80,958	15,984	96,942
Rhian Gibson Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	47,816	13,800	61,616	-	-	-

Penodwyd Rhian Gibson o 1 Medi 2022.

Mae Blwyddyn Ariannol 2021-2022 wedi'i hailddatgan o ganlyniad i gywiro'r cynnydd / (gostyngiad) real mewn pensiwn.

Datgelir hawliau pensiwn uwch staff y Llyfrgell sy'n gyfrifol am redeg adrannau sy'n llunio polisiau fel a ganlyn:

	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/22	Cyfanswm Pensiwn Cronedig ar 31/3/23	Cyfundaliad ar 31/3/23	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/23	Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn pensiwn cronedig namyn chwyddiant	Cynnydd/ (Gostyngiad) mewn cyfundaliad namyn chwyddiant	ICynnydd/ (Gostyngiad) mewn gwerth trosglwyddo namyn chwyddiant
	£	£	£	£	£	£	£
Mr P ap Llywd Prif Weithredwr a Llyfrgellydd	597,520	26,730	80,190	500,040	(230)	(700)	(157,830)
Mr DH Michael Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	708,840	28,980	86,940	557,040	(580)	(1,750)	(223,390)
Dr O Roberts Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	284,660	13,980	41,940	149,560	280	850	(163,850)
Rhian Gibson Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd	-	600	1,800	11,330	600	1,800	11,330

(d) Cofrestr Rhoddion

Mae'r Llyfrgell hefyd yn gweithredu cofrestr rhoddion. Ni ystyrir bod unrhyw eitemau a nodwyd yn ystod y flwyddyn o ddi-ddordeb perthnasol i'r datganiadau ariannol hyn.

(e) Diswyddo

Ni chyfrifwyd am unrhyw daliadau diswyddo gwirfoddol yn 2022-2023 (2021/22: £ Dim).

(f) Taliadau i'r Bwrdd

Nid yw'r Bwrdd, ac eithrio'r Llywydd, yn cael unrhyw dâl. Yn seiliedig ar adolygiad o sefydliadau tebyg, a chyda chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd wedi penderfynu talu swydd y Llywydd. Enillodd y Llywydd £16,850 yn ystod 2022-2023 (2021-2022: £18,535). Cyfanswm y costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch a wariwyd gan y Llyfrgell ar gyfer ei Bwrdd a'i haelodau pwyllgor oedd £ 1,746 (2021-2022 £536), hawliwyd hyn gan 7 aelod (2021-2022: 4 aelod).

9. NIFEROEDD STAFF

Y cyfrifiad misol cyfartalog oedd 238 (2021-2022): 219) ac roedd y staff cyfwerth ag amser llawn cyfartalog a gyflogwyd gan y Llyfrgell {gan gynnwys staff achlysurol a rhan-amser) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

Niferoedd Staff	2022/23	2021/22
Codi arian a Masnachu	11.9	8.5
Casgliad	64.2	36.2
Rhoi Mynediad a Gwybodaeth	41.5	61.9
Cyhoeddusrwydd a Dehongli	56.7	29.8
Cadw a Gwarchod	43.9	63.9
Llywodraethu	9.3	12.8
Cyfanswm	227.5	213.1

Ar ddechrau Blwyddyn Ariannol 2022-2023 cafodd y Llyfrgell ei had-drefnu. Mae hyn wedi arwain at ddyrannu staff i'r gwahanol gategoriâu uchod o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

10. ASED AU DIRIAETHOL AC ANNIRIAETHOL**A. Asedau Diriaethol**

	Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol £000	Offer, Ffitiadau a Chyfarpar £000	Cyfarpar Cyfrifiadurol £000	Cyfanswm £000
Cost a Phrasiad				
Ar 1 Ebrill 2022	70,304	3,870	4,463	78,637
Ychwanegiadau	2,158	978	543	3,679
Gwarediadau	-	(241)	(164)	(405)
Mynegeio	4,289	-	-	4,289
Ar 31 Mawrth 2023	76,751	4,607	4,842	86,200
Dibrisiad				
Ar 1 Ebrill 2022	937	2,014	2,459	5,410
Codwyd am y flwyddyn	1,228	198	393	1,819
Gwarediadau	-	(238)	(164)	(402)
Mynegeio	53	-	-	53
Ar 31 Mawrth 2023	2,218	1,974	2,688	6,880
Gwerth Net ar Bapur				
Ar 31 Mawrth 2023	74,533	2,633	2,154	79,320
Ar 31 Mawrth 2022	69,367	1,856	2,004	73,227

Derbyniodd y Llyfrgell brisiad ar 31 Mawrth 2021 ar adeiladau a thir rhydd-ddaliadol y Llyfrgell gan Cooke & Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Cynhaliwyd eu prisiad yn unol â Llawlyfr Arfarnu a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd adeiladau ar sail "gwerth y farchnad agored" neu "gost adnewydd wedi'i dibrisio", ac mae tir yn cael ei ddangos yn ôl "gwerth yn ôl y defnydd presennol". Nid oes unrhyw amhariad ar adeiladau wedi'i gofnodi ers y prisiad diwethaf. Mae prisiadau adeilad rhydd-ddaliadol wedi'u mynegeio yn unol ag All-In TPI BCIS.

Y swm wedi'i gario ar dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol o dan y confensiwn cost hanesyddol fyddai £43,425k (2021-2022: £43,246k).

Wedi'i gynnwys yn y Gwerth Net ar Bapur uchod mae £3,274k o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu sy'n ymwneud â Thir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol (£1,916k), Offer, Ffitiadau a Chyfarpar (£758k) a Chyfarpar Cyfrifiadurol (£600k).

Defnyddiwyd pob ased diriaethol i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

B. Asedau Anniriaethol

	Datblygiad digidol
	£000
Cost	
Ar 1 Ebrill 2022	1,086
Ychwanegiadau	-
Ar 31 Mawrth 2023	1,086
Amorteiddiad	
Ar 1 Ebrill 2022	816
Codwyd am y flwyddyn	67
Ar 31 Mawrth 2023	883
Gwerth Net ar Bapur	
Ar 31 Mawrth 2023	203
Ar 31 Mawrth 2022	270

II. BUDDSODDIADAU

	2022-2023	2021-2022 (fel yr ailddatganwyd)
	£000	£000
Buddsoddiadau	13,427	13,958
Arian parod a ddelir ar gyfer buddsoddiadau	123	319
Cyfanswm y buddsoddiadau	13,550	14,277
Gwerth y Farchnad ar 1 Ebrill 2022	13,958	12,177
Caffaeliadau am bris cost	4,452	6,686
Llai gwarediadau	(4,032)	(5,373)
Enillion/(colled) net ar warediadau/ailbriso	(951)	468
Gwerth y Farchnad ar 31 Mawrth 2023	13,427	13,958
Arian parod a ddelir ar gyfer buddsoddi		
Ar 1 Ebrill 2022	319	1,453
(Gostyngiad)/cynnydd	(196)	(1,134)
Ar 31 Mawrth 2023	123	319

Cost hanesyddol buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2023 oedd £13.196m (2021/22 £12.744m).

Ailddatganwyd Blwyddyn Ariannol 2021-2022 o ganlyniad i gyfuno'r enillion/colledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu oedd yn deillio o fuddsoddiadau.

Buddsoddwyd yr asedau fel a ganlyn:

	Giltiau, bondiau, debenturau a blaengyfran	Ymddiriedolaethau uned, ecwitiau tramor, eiddo ac asedau amgen	Ecwitiau'r DU wedi'u buddsoddi'n uniongyrchol ar farchnad stoc y DU	Arian parod	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Portfolio	1,692	9,476	2,259	123	13,550

Wrth benderfynu ar yr enillion y mae'r Llyfrgell eu hangen o'i phortffolio, a'r cydbwysedd rhwng twf cyfalaf ac incwm, mae'r Llyfrgell yn barod i dderbyn y bydd risgiau ynghlwm â buddsoddi arian y tu hwnt i roi arian ar gadw yn unig. Mae'r Llyfrgell yn barod i dderbyn y rhain ar yr amod eu bod o fewn lefelau derbyniol.

Y ffordd orau o ddisgrifio parodrwydd y Llyfrgell i dderbyn risg yw "cymedrol". Mae'r Llyfrgell yn barod i dderbyn bod rhaid mentro er mwyn sicrhau enillion uwch, ond bydd yr Ymddiriedolion hefyd yn ystyried sefyllfa'r Llyfrgell fel elusen a ariennir o grant y llywodraeth yn bennaf ac o ganlyniad, y safonau stiwardiaeth a awgrymir. Bydd risgiau buddsoddi felly'n cael eu lleddfu gan:

- **Ddyraniad asedau** – strategaeth dyrannu asedau nad yw'n amlgu'r cronfeydd yn ormodol i amrywiadau mewn un sector penodol o'r sbectrwm buddsoddi - h.y. bydd cydbwysedd yn cael ei ganfod rhwng swm y bondiau, ecwiti, arian parod a buddsoddiadau eraill gan gynnwys eiddo, a buddsoddiadau yn y DU a'r tu hwnt i'r DU.
- **Ansawdd buddsoddiadau** – bydd y Llyfrgell ond yn ystyried buddsoddiadau o ansawdd uchel megis giltiau a bondiau gradd buddsoddi, neu ecwiti a chasgliadau FTSE 350.

12. ASEDAU TREFTADAETH

Mae pryniannau Asedau Treftadaeth wedi eu cyfalafu ar gost hanesyddol.

Wedi'u caffael neu eu rhoi yn ystod y flwyddyn:

	Llyfrau	Tanysgrifiadau	Darluniau Llawysgrifau a Mapiau	Eraill	Casgliadau Digidol	AGSSC	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 01/04/22	2,083	2,861	12,863	380	4,370	376	22,933
Ychwanegiadau	44	50	239	-	-	5	338
Rhoddion	-	-	291	-	-	-	291
Ar 31/03/23	2,127	2,911	13,393	380	4,370	381	23,562

Mae ychwanegiadau at asedau treftadaeth yn cael eu datgan ar bris cost, tra bod rhoddion y cael eu nodi ar werth y farchnad.

Crynodeb ariannol pum mlynedd o ychwanegiadau:

	2022-2023 £'000	2021-2022 £000	2020-2021 £000	2019-2020 £000	2018-2019 £000
Llyfrau	44	87	25	40	51
Tanysgrifiadau	50	30	32	44	55
Darluniau, Llawysgrifau a Mapiau	239	180	157	312	381
Ffilm a cherddoriaeth	5	5	4	5	12
Cyfanswm Ychwanegiadau	338	302	218	401	499

Mae gan y Llyfrgell bolisi cytunedig ar gyfer caffael, cadw a rheoli asedau treftadaeth. Mae copi o'r polisi y cytunwyd arno ar gael ar gais. Nid yw'r Llyfrgell yn rhoi benthg eitemau i ddefnyddwyr, ond mae casgliadau ar gael yn yr ystafelloedd darllen a'r manau arddangos, yn ogystal ag ar-lein.

Mae gan y Llyfrgell (ers 1911) yr hawl i gael copi o'r holl lyfrau, cylchgronau, papurau newydd a deunydd printiedig arall a gyhoeddir yn y DU ac Iwerddon. Mae'n casglu deunydd o ddiddordeb Cymreig a Cheltaidd yn bennaf. Mae ei chasgliadau ar hyn o bryd yn cynnwys:

- **Deunydd printiedig:** yn amrywio o Yny lhyvyr hwnn, y llyfr Cymraeg cyntaf (a argraffwyd yn 1546) i raglenni o ddigwyddiadau lleol, megis cyngherddau a sioeau.
- **Llawysgrifau ac archifau:** gan gynnwys eitemau amhrisiadwy o'r Oesoedd Canol, megis Llyfr Llandaf, llawysgrif Hengwrth Chaucer a Llyfr Du Caerfyrddin.
- **Mapiau:** rhai hynafiaethol a modern ac atlasau, mapiau arolwg Ordnans, siartiau môr, mapiau o ffermydd, mapiau ystadau a mapiau degwm, cynlluniau rheilffyrdd a chynlluniau cyfleustodau cyhoeddus.
- **Darluniau:** yn portreadu pobl a lleoedd yng Nghymru gan gynnwys, paentiadau, printiau, engrafiadau a lluniau eraill.
- **Ffotograffau:** gweithiau Mary Dillwyn, John Thomas, D.C. Harries a Geoff Charles.
- **Adnoddau electronig a delweddau digidol:** yn newydd ac wedi'u creu yn bennaf gan y Llyfrgell, mae'r casgliadau yn cynnwys dros 5 miliwn o ddelweddau.
- Mae **Archif Ddarlledu Cymru** yn cynnwys 250,000 awr o recordiadau sain, 300,000 awr o ddelweddau symudol, 7 miliwn troedfedd o ffilm, 200,000 o eitemau o archif ffilm a theledu ITV ac archif unigryw 15km.

I3 DYLEDWYR - yn ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£000	£000
Dyledwyr Masnach	45	49
Ad-daliad TAW yn ddyledus	424	823
Rhagdaliadau	390	397
Dyledwyr Eraill ac Incwm Cronedig	848	468
Incwm Cronedig Cronfeydd Preifat	1,161	1,084
	2,868	2,821

Wedi'i gynnwys o fewn incwm cronedig cronfeydd preifat mae balans o £1,050k sy'n ymwneud a chymynrodd eiddo y bydd y Llyfrgell yn ei 2 flynedd ar ôl y grant profiant yn unol â thelerau'r ewyllys. Cyhoeddwyd y grant profiant ar 16 Ebrill 2021 ac felly bydd y Llyfrgell yn cael y swm amcangyfrifedig hwn ar ôl 16 Ebrill 2023.

I4 (a) CREDYDWYR - Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£000	£000
Credydwyr Masnach	94	176
Croniadau ac incwm gohiriedig	281	216
Croniad tâl gwyliau	231	242
	606	634

I4 (b) CREDYDWYR - Symudiad ar incwm gohiriedig

	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£000	£000
Incwm gohiriedig a ddygwyd ymlaen	83	423
Rhyddhad o'r flwyddyn flaenorol	(34)	(340)
Incwm gohiriedig yn y flwyddyn gyfredol	-	-
Incwm gohiriedig a gariwyd ymlaen	49	83

Mae incwm gohiriedig yn ymwneud â grantiau a dderbyniwyd.

I5 DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Llyfrgell hawliad yn ymwneud â chyflogaeth gan gyn-gyflogai. Mae'r hawliad hwn yn destun trafodaeth barhaus rhwng y ddau barti. Mae darpariaeth wedi'i gwneud yn y cyfrifon yn unol â chyngor cyfreithiol.

16 DADANSODDIAD O GRONFEYDD ELUSENNOL**a. Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd – Cyhoeddus**

	Ar 1 Ebrill 2022 £000	Adnoddau'n Dod i Mewn £000	Adnoddau a Wariwyd £000	Symudiadau Eraill yn y flwyddyn £000	Ar 31 Mawrth 2023 £000
CRONFEYDD CYHOEDDUS					
Anghyfyngedig - Pensiwn Cyhoeddus	(32,760)	-	(3,330)	18,010	(18,080)
Anghyfyngedig	1,580	12,647	(12,467)	(705)	1,055
	(31,180)	12,647	(15,797)	17,305	(17,025)
Cyfyngedig:-					
Cyfalaf a datblygu digidol	55,002	2,195	(1,888)	(134)	55,175
Cronfa Ailbrisiu wrth gefn *	26,121	-	-	4,236	30,357
Cronfeydd cyfyngedig eraill	208	1,539	(1,613)	705	839
Arian grant prynu	9,372	305	-	-	9,677
Cyfanswm arian cyhoeddus cyfyngedig	90,703	4,039	(3,501)	4,807	96,048
CYFANSWM ARIAN CYHOEDDUS	59,523	16,686	(19,298)	22,112	79,023

*Mae'r gronfa ailbrisiu wrth gefn wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar ailbrisiu asedau ers 1999 yn unol â gofyniad FRS 102 i nodi cronfeydd ailbrisiu wrth gefn, ar wahân. Nid yw ailbrisiadau cyn 1999 wedi'u cynnwys yn y gronfa hon.

Mae symudiadau eraill yn y flwyddyn £22,111k yn cynnwys:

- Ailbrisiad Asedau Sefydlog Diriaethol, Mynegeio ac amhariad - £4,236k
- Enillion/(colledion) actiwaraid-£18,010k

b. CRONFEYDD PREIFAT (gan gynnwys casgliadau)

	Anghyfyngedig	Cyfyngedig	Casgliad	Cyfanswm 2022-2023	Cyfanswm 2021-2022 (fel yr ailldatganwyd)
	£000	£000	£'000	£000	£000
Incwm					
Rhoddion a Chymynroddion	160	15	291	466	217
Llog Derbyniadwy	273	5	-	278	232
Cyfanswm	433	20	291	744	449
Adnoddau a Wariwyd					
Costau codi arian	53	1	-	54	55
Gwariant prosiectau preifat (Enillion)/colledion net ar fuddsoddiadau	-	44	-	44	15
	959	(8)		951	(468)
Cyfanswm	1,012	37	-	1,049	(398)
Adnoddau Net i Mewn/(Allan)	(579)	(17)	291	(305)	847
Trosglwyddiadau	166	(32)	-	134	101
Symudiad net mewn cronfeydd preifat yn ystod y flwyddyn	(413)	(49)	291	(171)	948
Dygydd ymlaen ar 1 Ebrill	15,615	230	7,653	23,498	22,550
Cariwyd Ymlaen ar 31 Mawrth	15,202	181	7,944	23,327	23,498

Mae cyfanswm y cronfeydd casgliad a phreifat cyfyngedig yn cynrychioli cyfanswm o gronfeydd preifat cyfyngedig o £8,125k.

Ailldatganwyd Blwyddyn Ariannol 2021-2022 o ganlyniad i gyfuno'r enillion/colledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu oedd yn deillio o fuddsoddiadau.

17. DADANSODDIAD O ASEDAU NET RHWNG CRONFEYDD

	Cyhoeddus Anghyfyngedig	Cyhoeddus Cyfyngedig	Preifat Anghyfyngedig	Preifat Cyfyngedig	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau Sefydlog	-	95,155	13,354	8,124	116,633
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	136	-	1,848	1	1,985
Asedau/(rhwymedigaeth au) cyfredol net eraill	919	893	-	-	1,812
Credydwyr mwy na blwyddyn	(18,080)	-	-	-	(18,080)
Cyfanswm	(17,025)	96,048	15,202	8,125	102,350

18. CYSONI INCWM/ (GWARIANT) NET I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

	2022-2023	2021-2022 (fel yr ailddatganwyd)
	£000	£000
Incwm/ (gwariant) net ar gyfer y cyfnod adrodd (fel yn ôl y datganiad o weithgareddau ariannol)	(2,914)	3,467
(Enillion)/Colled Net ar fuddsoddiadau	951	(468)
Addasiad pensiwn llog FRS 102	490	330
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio	1,886	1,575
(Cynnydd)/Gostyngiad mewn stoc	-	(2)
Rhoddion (heb fod yn arian parod) asedau treftadaeth	(291)	(158)
(Cynnydd)/ Gostyngiad mewn dyledwyr	(47)	(180)
(Gostyngiad)/ Cynnydd mewn credydwyr/darpariaethau	472	(518)
Addasiad cost gwasanaeth cyfredol pensiwn	2,840	1,130
Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu	3,387	5,176

Ailddatganwyd Blwyddyn Ariannol 2021-2022 o ganlyniad i gyfuno'r enillion/colledion wedi'u gwireddu a heb eu gwireddu oedd yn deillio o fuddsoddiadau.

19. DADANSODDIAD O ARIAN PAROD A GWERTHOEDD CYFWERTH AG ARIAN PAROD

	2022-2023	2021-2022
	£000	£000
Balansau cyfrifon banc	1,986	2,840
Cyfrifon banc a ddeler o fewn buddsoddiadau	123	319
Arian parod a gwerthoedd cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth	2,109	3,159

20. TRAFODION GYDA PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn cafodd y Llyfrgell gyllid gan y Llywodraeth ar ffurf Cymorth Grant, Grantiau Prynu, Cyfalaf a Phrosiect fel y'u datgelir yn nodyn 2.

Mae manylion gwariant mewn perthynas â chostau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch aelodau'r bwrdd yn cael eu datgelu yn Nodyn 8(f).

Datgelir trafodion a balansau gyda'r cynllun pensiwn yn Nodyn 8.

Nodir trafodion partïon cysylltiedig gydag aelodau'r Bwrdd ac aelodau'r uwch ðim rheoli yn y tabl isod.

		2022-2023		2021-2022	
Parti Cysylltiedig	Cysylltiad	Incwm (Gwariant)	Dyledwr (Credydwr)	Incwm (Gwariant)	Dyledwr (Credydwr)
		£	£	£	£
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Mae Mr David Michael, Cyfarwyddwr y Llyfrgell yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio. Mae Mr Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr y Llyfrgell yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yng Nghymru.	703,384	470,437	748,173	425,013
Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC)	Mae Mr Pedr ap Llwyd, Prif Weithredwr y Llyfrgell yn Gyfarwyddwr Anweithredol CCC.	1,148	0	0	0
Cyngor Caerdydd	Mae Dr Janet Wademan, Ymddiriedolydd y Llyfrgell yn Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yng Nghyngor Caerdydd.	(4,738)	0	0	0
Eisteddfod Genedlaethol	Mae Mr Ashok Ahir, Ymddiriedolydd y Llyfrgell yn Llywydd Llys yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli'r Eisteddfod.	85/(21,410)	0	0	0
Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth	Mae Mr Lee Yale-Helms, Ymddiriedolydd y Llyfrgell yn Ymddiriedolydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth	(32,176)	0	0	0
Diverse Cymru	Mae Ms Rhian Gibson, Cyfarwyddwr y Llyfrgell (o 1 Medi 2022) yn Ymddiriedolydd Diverse Cymru	(25)	0	0	0

Prifysgol Aberystwyth	Ms Meri Huws, Ymddiriedolydd y Llyfrgell (hyd at 9 Awst 2021) yn Aelod o'r Cyngor.	0	0	1,737/(11,7 36)	216
--------------------------	------------------------------------------------------------------------------------------------	---	---	--------------------	-----

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Llyfrgell ddyledwyr a chredydwyr cyfunol â chyrrff eraill a ariennir gan y Llywodraeth fel a ganlyn:

	Dyledwyr	Credydwyr: dyledus o fewn blwyddyn
	£000	£000
Cyrrff Llywodraeth Ganolog	1,264	50
Cyrrff Llywodraeth Leol	87	-
Cyrrff Anllywodraethol	1,517	556
Cyfanswm	2,868	606

21. OFFERYNNAU ARIANNOL - DATGELU RISG

Nid oes gan y Llyfrgell unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei gofynion ariannol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Datgelir yr unig adnau perthnasol yn nodyn 11, a chaiff yr holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol eu nodi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred. Yn 2022-2023, roedd £15.486m neu 89% o incwm cyfunol y Llyfrgell yn deillio o Lywodraeth Cymru (2021-2022 £17.159m neu 91%). Mae'r balans, £1.944m neu 11% (2021-2022: £1.617m neu 9%) yn deillio o incwm ar gronfeydd preifat y Llyfrgell (nodyn 16b), o weithgareddau masnachu (nodyn 4) a grantiau o gyrff eraill fel y datgelir yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

Mae'r Llyfrgell yn agored i risg y farchnad drwy ei buddsoddiadau ac mae hyn yn cael ei reoli drwy amrywio'r portffolio yn ogystal â gosod y parodrwydd i dderbyn risg a'r amcanion buddsoddi sydd i'w defnyddio gan Reolwr y Gronfa.

22. PRYDLESI

Ni wnaeth y Llyfrgell unrhyw daliadau pryddles yn ystod y flwyddyn na'r flwyddyn flaenorol.

23. COSTAU PENSIWN

Mae'r Llyfrgell yn gweithredu cynllun buddion diffiniedit gyda buddion yn cronni ar gyfradd o 1180fed o gyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Roedd y prisiad actiwaraid llawn diweddaraf ar 31 Mawrth 2022 ac aseswyd bod y Cynllun wedi'i ariannu 99% (2019: wedi'i ariannu 100%).

Yn ystod 2022-2023, cyfrannodd y Llyfrgell 27.2% o gyflogau pensiynadwy ac mae cyfraniadau cyflogwyr disgwylidig ar gyfer 2023-2024 yn £2.2 miliwn.

(a) Datblygu Sefyllfa'r Fantolen Net

	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£m	£m
Gwerth teg asedau (23b)	56.38	87.44
Gwerth actiwaraid rhwymedigaethau cynllun (23c)	74.46	120.20
Rhwymedigaeth pensiwn wedi'i gydnabod yn y fantolen	(18.08)	(32.76)

(b) Newidiadau yng ngwerth teg asedau'r cynllun

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£m	£m
Asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	87.44	82.45
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	(2.64)	(2.55)
Cyfraniadau'r cyflogwr	1.84	2.66
Cyfraniadau aelodau	0.09	0.09
Incwm llog ar Asedau'r Cynllun	1.35	1.03
Enillion asedau'r cynllun yn fwy/(llai) nar' gyfradd ddisgownt	(31.70)	3.76
Asedau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (23a)	56.38	87.44

(c) Dadansoddiad o newidiadau yn y Rhwymedigaethau Budd Diffiniedig (DBO)

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£m	£m
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	120.20	110.37
Cost llog ar y DBO	1.84	1.36
Effaith gwasanaethau gweithwyr yn y cyfnod presennol	4.52	3.67
Cyfraniadau aelodau	0.09	0.09
Buddion a dalwyd o asedau'r cynllun	(2.48)	(2.43)
Ailfesur ar y DBO/ newid rhagdybiaethau	(49.71)	7.14
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (23a)	74.46	120.20

(d) Symiau a godwyd ar y Datganiad o Faterion Ariannol (SOFA) (Cyfanswm Gwariant)

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£m	£m
Effaith gwasanaethau gweithwyr yn y cyfnod presennol	4.52	3.67
Llog net ar rwymedigaeth/(ased) buddio net diffiniedig	0.49	0.33
Cost buddion diffiniedug a gydnabyddir yn yr Elw a Cholled (P&L)	5.01	4.00
Costau gweinyddol yn ystod y cyfnod	0.16	0.12
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn y SOFA	5.17	4.12

(e) Enillion/(Colledion) Actiwaraidd a godwyd ar y SOFA (Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill)

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£m	£m
Enillion ar asedau'r cynllun (mwy)/ llai na'r gyfradd ddisgownt– (23b)	31.70	(3.76)
Colled/(enillion) actiwaraidd yn codi yn ystod y cyfnod – (23c)	(49.71)	7.14
Cyfanswm colled/(enillion) actiwaraidd a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn	(18.01)	3.38

(f) Cyfanswm cost buddion diffiniedig

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£m	£m
Cyfanswm y gost a gydnabyddir yn – (23(d))	5.17	4.12
Effaith ailfesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn (23(e))	(18.01)	3.38
Defined benefit cost	(12.84)	7.50

(g) Cysoni Sefyllfa'r Fantolen Net

	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023	Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022
	£m	£m
(Rhwymedigaeth) diffiniedig net ar ddechrau'r flwyddyn	(32.76)	(27.92)
Effaith gwasanaethau gweithwyr yn y cyfnod presennol (23c)	(4.52)	(3.67)
Llog net ar rwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net	(0.49)	(0.33)
Effaith ail-fesur a gydnabyddir yn y cronfeydd wrth gefn (23(e))	18.01	(3.38)
Cyfraniadau'r cyflogwr (23b)	1.84	2.66
Costau gweinyddol (23d)	(0.16)	(0.12)
Rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn – (23a)	(18.08)	(32.76)

(h) Gwerth yr Asedau ar y Farchnad a'r Ganran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

	31 Mawrth 2023		31 Mawrth 2022	
	£m	%	£m	%
Ecwitiau	9.32	16.5	26.50	30.3
Bondiau	32.26	57.2	51.76	59.2
Eiddo ac arall	14.80	26.3	9.18	10.5
Cyfanswm gwerth asedau	56.38		87.44	

(i) Tybiaethau Ariannol

Mae'r rhagdybiaethau ariannol a wnaed er mwyn cyfrifo gofynion datgelu FRS 102 fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	% y flwyddyn	% y flwyddyn
Chwyddiant Prisiau	2.40	2.90
Cyfradd y Cynnydd Cyflog	2.40	2.90
Cyfradd cynnydd y pensiynau a delir*	2.40	2.90
Cyfradd ddisgownt**	4.15	1.55

* mwy nag unrhyw elfen Isafswm Pensiwn Gwarantedig (GMP)

** wedi'i rhagnodi gan Drysorlys EF

Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer datgeliadau FRS 102 yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari ar gyfer asesiad ariannol diweddaraf y Cynllun ar 31 Mawrth 2022. Bydd y gofyniad i ddefnyddio cyfradd ddisgownt y Trysorlys ar gyfer datgeliad FRS 102 yn arwain at asesu sefyllfa ariannol y Cynllun yn wahanol o dan y mesur hwn o'i gymharu â'r dull a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraid ffurfiol y Cynllun.

24. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar ddyddiad y fantolen, mae'r ymrwymadau sy'n weddill fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2023	31 Mawrth 2022
	£000	£000
Wedi'i gontractio – gwaith adeiladu	46	1,806
Wedi'i gontractio – cyfarpar cyfrifiadurol	-	312
Wedi'i gontractiod – offer, peiriannau a chyfarpar	13	-
	59	2,118

25. DIGWYDDIADAU ÔL-FANTOLEN

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen perthnasol hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd y datganiadau cyfrifyddu gan y Swyddog Cyfrifyddu ar **22 Mawrth 2024**, a fyddai wedi golygu bod yn rhaid addasu'r cyfrifon.